# Llais Ogwan


*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 510 · Mai 2020 · Rhifyn Digidol · Am Ddim**

# Daw eto haul ar fryn





Mae 'na rywbeth rhyfeddol wedi bod yn digwydd yn y Dyffryn. Yng nghanol gofid a phryder y cyfnod digynsail hwn, mae rhyw fflach o obaith na ellir ei osgoi. Ac un peth sy'n crynhoi'r meddylfryd positif hwn yw'r dyfyniad sydd wedi ymddangos ar hyd a lled ein pentrefi: " Daw eto haul ar fryn." Y mae 'r geiriau hyn, law yn llaw ag enfysau'n ymddangos yn ffenestri tai, wedi dod â gwên a gobaith i'r rai hynny ohonom sy'n ddigon ffodus i'w gweld. A chyda gweithwyr allweddol – yn enwedig felly ein gweithwyr iechyd- yn cael y gwerthfawrogiad haeddiannol am y tro cyntaf ers peth amser, mae'r enfys wedi dod yn symbol o'u hymroddiad hwy a'n diolch ni.

Yn ddiddorol, mae 'na gysylltiad uniongyrchol rhwng y geiriau a'r Dyffryn hefyd. Cerdd o'r eiddo'r Parchedig J T Job yw hon, fu'n weinidog yng Ngharneddi , ac mae un o'i ddisgynyddion, Steffan, yn byw yn y pentref. Dyma'r pennill cyfan:

Os troi o chwith wna pethau nawr,
A'th ardd sy'n tyfu chwyn,
Paid torri'th galon, gyfaill mwyn,
Daw eto haul ar fryn.

Un enghraifft sydd wedi tanio'r dychymyg yw ymdrech trigolion Tregarth (t.27). Gyda'r BBC yn darlledu'r #Big Night In i ddathlu gwaith ein gweithwyr allweddol, un rhan o'r adloniant oedd ail-greu un o'r caneuon a anfarwolwyd gan Peter Kay – "Is This The Way To Amarillo?". Fe gydiodd Tregarth yn y baton a chynhyrchu fideo sydd wedi cael ei wylio bron i filiwn o weithiau! Ia, miliwn! Os ydych eisiau rhywbeth i godi calon, a chan fod y rhifyn hwn yn un digidol, cliciwch (neu copïwch) y ddolen isod https://www.youtube.com/watch?v=zOWcT9k7dXc&t=27s

Mae'r thema'n parhau gyda gwaith llaw un o drigolion Bethesda. Mae Sian Pritchard, wedi bod yn crosio enfysau bychain fel addurniadau a'u gwerthu er budd y Gwasanaeth Iechyd. Mae hi eisoes wedi codi dros £2000 o bunnau!

A phe gellid clywed llun, byddai'r llun uchod yn eich cyffwrdd. Fe'i tynnwyd am wyth o'r gloch, Nos Iau, Ebrill 28ain, o'r Ffridd yn Nhregarth, yn wynebu Bethesda. Clywid y gymeradwyaeth yn glir – o Dregarth i Fethesda.

Mae'r to iau wedi bod yn brysur hefyd, yn dysgu mewn ffordd hollol newydd, a rhieni yn cael y fraint o fod yn athrawon am y tro cyntaf. Ddim mor hawdd ag oeddech chi'n feddwl, nac 'di?! Ac i'r rhai hynny yn ein plith sydd YN athrawon – mae'n dipyn haws dysgu plant pobl eraill yn dydi?!

Ac mae 'na garfan newydd yn ein plith sydd wedi manteisio ar yr 'awr aur', lle cawn fynd allan am ymarfer corff, i weld rhai o ogoniannau'r Dyffryn; Dyffryn sy'n cael llonydd a rhyddid i ffynnu yn absenoldeb y prysurdeb arferol. Ar adeg mor estron, diau mai ein braint mwyaf yw cael byw mewn ardal mor arbennig. Ardal y mae'n ddyletswydd arnom i'w gwarchod.

## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 07815 093955
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**CADEIRYDD:**
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**TREFNYDD HYSBYSEBION:**
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**YSGRIFENNYDD:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**TRYSORYDD:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y LLAIS DRWY'R POST:**
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Lowri Roberts.

Y golygydd ym mis Mehefin fydd Derfel Roberts, Llys Artro, 84 Ffordd Carneddi, Bethesda, LL57 3SG. 01248 600965 E-bost: derfel.roberts@btinternet.com

**PWYSIG: TREFN NEWYDD O RIFYN IONAWR YMLAEN GOFYNNIR I'R DEUNYDD GYRRAEDD Y GOLYGYDD 5 DIWRNOD YN GYNT NA'R ARFER.**

Pob deunydd i law erbyn **dydd Sadwrn, 30 Mai** os gwelwch yn dda. Ni fydd angen casglu a dosbarthu gan mai rhifyn digidol fydd hwn.

**DALIER SYLW:** NID OES GWARANT Y BYDD UNRHYW DDEUNYDD FYDD YN CYRRAEDD AR ÔL Y DYDDIAD CAU YN CAEL EI GYNNWYS.

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

## Rhoddion i'r Llais

£400 Cyngor Cymuned Bethesda.

**Diolch yn fawr**







**www.llaisogwan.com**
**Trydar: @Llais_Ogwan**

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones,
1 Dol Helyg, Talybont ☎ 353500

**Codi Arian / Codi Calon**
Mae wedi tyfu'n arferiad yn Nhalybont, fel ym mhob man drwy'r wlad, inni ddod i ben y drws bob nos Iau am 8 o'r gloch i ddangos ein gwerthfawrogiad o waith clodwiw pobl y Gwasanaeth Iechyd, a phob gweithiwr a gwirfoddolwr arall, yn ystod y cyfnod tywyll hwn.



Mae Siân, chwaer Rhian, ein postmones gymwynasgar, wedi bod wrthi'n ddiwyd yn crôsio pentwr o enfysau, a'u gwerthu am £5 yr un at waith y Gwasanaeth Iechyd lleol. Mae cyfanswm o £2,170 wedi cael ei anfon i Ysbyty Gwynedd. Caiff y mathemategwyr yn eich plith weithio allan faint o enfysau cafodd eu crôsio i gyrraedd y swm yna. Anhygoel!

Mae eu gweld yn ffenestri'r tai, ynghŷd â gwaith llaw'r plant mawr a bach, yn codi calonnau'r rhai ohonom sy'n orfodol gaeth i'n cartrefi, ac yn ein hatgoffa o'r hen ddywediad, 'Daw eto haul ar fryn'. Mi ddaw ryw ddydd, siŵr o fod!

**Capel Bethlehem**
Diolch i'n Gweinidog, Y Parchedig John Pritchard, am ei oedfaon digidol sydd i'w gweld ar wefan Capel Tanycoed. Diolch iddo hefyd am barhau i gyhoeddi Gronyn yn Sabothol!

Anfonwn ein cofion at ein haelodau a'n ffrindiau oll, gan obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn yn y dyddiau anodd hyn.

**Llongyfarchiadau**
Y mis diwethaf, roeddem yn llongyfarch Beca Nia, 36. Bro Emrys ar ennill dwy ysgoloriaeth o dan nawdd Prifysgol Bangor. Y tro hwn, mae wedi dod yn hysbys iddi ennill y brif ysgoloriaeth i Brifysgol Caerdydd.

Rwyt ti wedi gwneud yn wych, Beca, a gwyddost, lle bynnag yr ei di, yr aiff dymuniadau gorau dy ffrindiau yn Nhalybont efo chdi.

**Brysiwch wella!**
Anfonwn ddymuniadau am wellhad buan i Barry Lill a ddioddefodd godwm cas tra'n loncian ychydig o wythnosau'n ôl. Hefyd i Keith Jones, 13. Dolhelyg, sy'n disgwyl cael triniaeth yn Ysbyty Glan Clwyd.

Estynnwn gydymdeimlad dwysaf i Jane a Frank Griffiths, Tŷ Mawr. Bu farw tad Jane mewn Cartref yn Llandudno, bron yr un pryd ac yr roedd Jane ei hun yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Deallwn ei bod adref erbyn hyn ac yn gwella'n dda.

**Diolch**
Hoffai Hughie Post ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau lu am yr holl anrhegion, cardiau a galwadau ffôn a dderbynniodd ar achlysur ei benblwydd arbennig.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor
**01248 353604**
Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:
Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

Yn anffodus, nid yw'n bosib i ni ddod at ein gilydd i dynnu'r gwobrau yn ôl ein harfer hyd nes y codir y gwaharddiadau coronafeirws presennol.

Bryd hynny byddwn yn ôl-ddyddio'r gwobrau o fis Ebrill ymlaen.

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**,
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams**,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Nos Lun, Mawrth 2, dathlodd y gangen Wŷl Ddewi gyda phryd o fwyd rhagorol yng Nghlwb Rygbi, Bethesda. Daeth criw da o'r aelodau at ei gilydd a chafwyd digon o gyfle i gael sgwrs a mwynhau'r wledd. Ychydig a feddyliodd 'run aelod mai dyma oedd diwedd y tymor a ddaeth yn gynt oherwydd y feirws. Diolchwyd i Dylan a Nia a staff y Clwb am baratoi pryd blasus gan ein Llywydd Myfanwy Harper. Diolchwn i Myfanwy, Alison, ac Andrea am fod yn swyddogion ardderchog yn ystod y flwyddyn a diolchwn i'r tair am wneud y gwaith eto y flwyddyn nesaf. Ar hyn o bryd ni wyddom pa bryd y cawn ddod at ein gilydd ond fe wnawn yn sicr fod pawb yn cael gwybod pa bryd y cawn ddychwelyd i'n cyfarfodydd yn Festri Capel Shiloh.

**Ffordd Tanrhiw yn disgleirio**
Difyr oedd gweld rhai o drigolion Ffordd Tanrhiw ar y Gwefannau Cymdeithasol ac ar y radio a'r teledu yn ein diddanu drwy ddawnsio drwy'r stryd i gerddoriaeth 'Show me the way to Amarillo'. Diolch i Kevin a Rhian, Gwyn a Julie, Owenna a Les, Bethan, Dylan a Nel, Stephen a Sharon am ddod a gwên i bawb a rhoi Tregarth ar y map!

**Cydymdeimlad**
Bu farw Gareth Wyn Hughes ar Ebrill 13, yn frawychus o sydyn yn 60 mlwydd oed yn ein gartref Arafa Don, Bethesda. Arferai'r teulu fyw yn Dob, Tregarth 'roedd yn fab i'r diweddar Joyce a Cledwyn Hughes. Bydd ei angladd ar Ebrill 30 yn Amlosgfa Bangor a chydymdeimlwn gyda'i chwaer Brenda yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd, ac â'r teulu i gyd.

**Capel Shiloh**
Daeth y newyddion trist iawn am farwolaeth un o aelodau'r capel sef Dennis Vaughan Griffiths, 4 Bro Bethel, Rachub ond a arferai fyw gyda'i deulu yn Godre'r Parc, Sling. Cydymdeimlwn gyda'i blant Falyri, Maralyn, Edwina, Geraint a Delyth yn eu tristwch. Mae'n gadael deg o ŵyrion a dau or-ŵyr. Diolchwn am gael ei gwmni yn Shiloh a hynny mor ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Bydd colled ar ei ôl ymhlith y gynulleidfa.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn gyda Bethan Gwyn, Elin, Angharad, Mari a Rhiannon, Capel Gorffwysfa, Sling, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw mam Bethan, sef Mrs Sarah Agnes Williams, gynt o Rydcymerau, Sir Gaerfyrddin, mewn cartref yn Abergwaun ar Ebrill 3. Pob cydymdeimlad i chi fel teulu.

## DIFYRION

### Robert Recorde (1512 -1558)

Meddyg o Gymro a Mathemategydd o Ddinbych y Pysgod yn Sir Benfro. Ef ddyfeisiodd yr arwydd hafal (=) i Fathemateg a fo hefyd gyflwynodd yr arwydd (+) i'r iaith Saesneg.

# Ysgol Abercaseg

**Croeso**
Hoffai holl staff a phlant yr ysgol estyn croeso cynnes iawn i Mr Gethin Thomas sydd bellach wedi cychwyn ar ei swydd fel Pennaeth yn Ysgol Abercaseg ac Ysgol Pen y bryn. Mae pawb yn edrych ymlaen yn arw i gyd weithio gyda Mr Thomas.

**Cadw'n ddiogel, cadw'n brysur, cadw'n hapus a chadw mewn cysylltiad!**
Rydym fel athrawon wrth ein boddau yn cael gweld beth mae'r plant wedi bod yn ei wneud i gadw'n brysur yn ddiweddar ac yn siŵr y buasech chi y gymuned yn hoffi cael clywed hefyd.


**Dosbarth Llafar**
Swyn – Mae Swyn wedi bod mor brysur yn ystod ei hamser adref, mae hi wedi bod yn y tŷ coeden yn yr ardd, ymarfer canu caneuon Tric a Chlic, ymarfer ffurfio rhifau a darganfod llyffant bach yn ei gardd!
Gwawr – Mae Gwawr wedi mwynhau gwneud amrywiaeth o weithgareddau o'r pecyn ysgol, pobi bara gyda mam, mynd am dro gyda'i theulu a darganfod nyth aderyn tu allan i'w thŷ.
Owain – wedi bod yn gwneud sesiwn addysg gorfforol gyda Joe Wicks mewn dillad gwisg ffansi. Yn ogystal â hyn, mae Owain wedi bod yn helpu yn yr ardd a dathlu pen-blwydd cyntaf ei chwaer fach Begw.
Iwan – wedi bod yn ymarfer ei sgiliau cyfri adref yn ogystal â chwblhau sialensiau 1 munud gan yr ysgol. Yn ogystal â hyn, mae Iwan wedi bod yn plannu hadau ffa, garlleg, afal, pupur a nionyn yn yr ardd.
Belle – Mae Belle wedi bod yn brysur yn helpu yn y gegin a chreu cacennau siocled blasus a chwblhau amrywiaeth o weithgareddau torri a gludo yn y tŷ.
Morgan – Mae Morgan wedi mwynhau cymryd rhan yn yr helfa trysor gyda'i chwaer Cati yn ystod y tywydd braf. Yn ogystal â hyn, mae Morgan wedi bod yn brysur yn cwblhau'r sialensiau difyr adref sef cael diwrnod pyjamas.
Nel – Mae Nel wedi bod yn andros o brysur yn ystod ei hamser adref o baentio, gwneud addysg gorfforol, creu cacen pen-blwydd i Nain a gwneud arbrofion lliw gyda'i brawd mawr Alfie.
Greta – Yn ystod y tywydd braf mae Greta wedi mwynhau gwneud gweithgareddau tu allan gyda'i brawd bach Eban. Mae hi wedi bid yn brysur yn y gegin fwd, creu arbrawf lliw a gwisgo a chanu fel Dona Direidi.
Scott – Mae Scott wedi dysgu sgiliau newydd fel gwisgo ei hun, brwsio ei ddannedd ac ymolchi yn y bore yn annibynnol. Yn ogystal â hyn mae Scott wedi bod yn brysur yn cwblhau ei becyn gwaith gan yr ysgol.
Loti T – Mae Loti wedi bod yn bwydo ieir, darganfod lindysyn bach yn ei gardd, yn paentio enfys ar garreg a chwblhau'r sialensiau aur, arian ac efydd gyda'i chwaer Mali.
Tomos – Mae Tomos wedi cael hwyl a sbri yn cwblhau'r gweithgareddau gan yr ysgol ar y ap See Saw gyda'i chwaer Non. Mae Tomos wedi bod yn gwneud gweithgareddau mathemateg, ymarfer ffurfio llythrennau a chanu 'Lliwiau'r Enfys'.

**Dosbarth Ffrancon**
Huw – Mae Huw wedi bod yn coginio, wedi cymryd rhan yn helfa'r ardd ac wedi bod yn ymarfer ysgrifennu ei enw.
Oscar – Ymarfer ffurfio llythrennau, lliwio gyda rhif yw ychydig o beth mae Oscar wedi bod yn ei wneud.
Mali Efa – Mae Mali Efa wedi creu Cegin fwd a hefyd wedi gwneud llun enfys bendigedig ar gyfer yr NHS.
Kieran – Mae Kieran wedi bod allan yn garddio a phlannu planhigion.





**Dosbarth Tryfan**
Anni – Mae Anni wedi bod yn brysur iawn yn chwilio am wrthrychau ac yn adio a thynnu yn yr helfa Fathemateg.
Cai – Mwynhau ei amser yn yr ardd yn gwneud lluniau o'r enfys mae Cai wedi bod yn ei wneud. Lliwio bendigedig Cai!
Cêt – Mae Cêt wedi bod yn cadw'n brysur gan chwilio am bethau ar gyfer yr helfa ac wedi gwneud poster lliwgar i ddangos ei gwaith ar See Saw.
Erin – Mynd am dro yn yr haul braf mae Erin wedi bod yn ei wneud.
Evangeline – Mae Evangeline wedi cymryd mantais o'r tywydd braf er mwyn garddio ac mae hi hefyd wedi mwynhau ymarfer ei sgiliau o roi colur ymlaen!
Freya – Mae Freya wedi cael hwyl yn gwneud lluniau lliwgar ar y cyfrifiadur. Rydw i yn hoff iawn o'r lluniau enfys Freya.
Gwenlli – Coginio cacen flasus gyda Dad ydi un o'r pethau sydd wedi cadw Gwenlli yn brysur. Mae hi hefyd wedi bod yn gwneud lluniau bendigedig!
Nathan – Mae Nathan wedi bod yn brysur yn gwneud cerdyn Pasg hyfryd ac yn treulio amser yn yr ardd ar y trampolîn.
Osian – Lliwio, ymarfer odrifau ac eilrifau a chwblhau'r sialensiau 1 munud yw ychydig o'r pethau mae Osian wedi bod yn ei wneud.
Osian- Mae Osian wedi bod yn brysur iawn yn peintio lluniau o'r enfys, garddio, coginio ac adeiladu!
Theo – Mae Theo wedi bod yn brysur ofnadwy! Lliwio, chwilio tu mewn a thu allan am wrthrychau ar gyfer yr helfa, creu coron o flodau a threulio amser gyda'i ffrind gorau Nona y ci yw ychydig o'r pethau mae Theo wedi bod yn ei wneud.
Twm – Helpu i ailgylchu, cwblhau helfa'r ardd, gwneud y sialensiau 1 munud, canu a gwneud arbrawf yw rhai o'r pethau mae Twm wedi bod yn ei wneud.

**Dosbarth Ogwen**
Jac – Mae Jac wedi bod yn cadw'n brysur drwy ymarfer ffurfio ei rifau yn ogystal â mynd o amgylch y tŷ yn dod o hyd i ddau o bob dim!
Emily – Mae Emily wedi bod yn andros o brysur wrth wneud yoga, helpu o amgylch y tŷ, cael picnic yn yr ardd, garddio, gwneud lluniau yn ogystal â chwblhau helfa drysor, waw!
Cati – Mae Cati a'i brawd bach Morgan wedi bod yn brysur yn cwblhau sawl helfa drysor!

**Dosbarth Ffrydlas**
Angharad – Mae Angharad wedi cael hwyl dda ar yr helfa Mathemateg ac wedi bod yn gwneud lluniau bendigedig i ddangos ei gwaith ar Seesaw.
Alfie – Mam bach mae Alfie wedi bod yn andros o brysur! Paentio, arbrofi gyda pinnau ffelt a dŵr yn ogystal ag ychydig o wnïo yw beth mae Alfie wedi bod yn gwneud.
Amelia – Mae Amelia wedi bod yn taflu cerrig i'r dŵr, wedi bod yn ymarfer eilrifau ac odrifau, wedi bod ar y trampolîn a hefyd wedi gwneud ysgytlaeth Oreo!
Ava – Coginio a lliwio sydd wedi bod yn cadw Ava yn brysur yn ddiweddar yn ogystal â dysgu ychydig am y gofod.














Caiden – Mae Caiden wedi dal ati ac wedi cwblhau jig-so 200 darn! Mae o hefyd wedi gwneud llun bendigedig i ddiolch i'r NHS ac wedi gwneud coron flodau, gwych Caiden.
Cynan – Mynd am dro ac adeiladu pont o gerrig yw un o'r pethau mae Cynan wedi bod yn eu gwneud i gadw'n brysur.
Gruff – Mae Gruff wedi cymryd mantais o'r amser i ffwrdd ac wedi bod yn eu gwneud 'quicksand' a hefyd wedi dysgu sut i gau creai. Mae o hefyd wedi cymryd rhan yn yr heriau 1 munud ac wedi llwyddo i ddweud ei enw 76 gwaith mewn 1 munud!
Lily – Mynd am dro, lliwio, ac ymarfer ei sgiliau coginio ac addurno cacennau a bisgedi yw ychydig o'r pethau mae Lily wedi bod yn gwneud.
Llifon – Darllen Saesneg, mesur o amgylch y tŷ, plannu, arbrofi, cwblhau helfa, coginio, dim ond ychydig o'r pethau mae Llifon wedi bod yn gwneud i gadw'n brysur!
Max – Mae Max wedi bod yn cadw'n brysur drwy gwblhau helfa, rhoi cynnig ar ambell i Kahoot Dosbarth Ffrydlas a hefyd wedi gwneud arbrawf enfys diddorol iawn.
Myla – Mae Myla wedi bod yn cwblhau heriau ac wedi ffeindio bod ganddi 14 pêl droed o amgylch y tŷ!
Ned – Da gweld Ned yn helpu hefo'r ail gylchu a hefyd yn cwblhau sawl helfa ac ambell i arbrawf bach diddorol gyda Twm ei frawd.
Seren – Mae Seren, Ana ac Efa wedi bod allan yn yr ardd yn y tywydd braf ac wedi rhoi cynnig ar yr helfa.
Willow – Mae Willow wedi bod yn gwneud sawl peth yn ddiweddar, helpu dad yn yr ardd, ymarfer ffurfio llythrennau ... ar ei choes, wedi bod am dro ar gefn Ela y ceffyl a dawnsio hefo Tobie a Ruby-Grace.

Ynyr – Mae Ynyr wrth ei fodd gyda Kahoot yn y dosbarth felly does dim rhyfedd ei fod o wedi bod wrthi adref hefyd. Mae o wedi cymryd rhan yn yr helfa lyfrau ac wedi dod o hyd i lyfr gyda 187 tudalen a hefyd wedi colli dannedd!




Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

# Holiadur Iaith Gwynedd – dweud eich dweud

Tra bod cyfnod anodd ac ansicr o'n blaenau oherwydd argyfwng Coronafeirws, mae Menter Iaith Gwynedd yn edrych ymlaen i'r dyfodol ac eisiau barn y cyhoedd wrth gynllunio ei rhaglen waith.

Wrth weithio i gynyddu'r defnydd o'r iaith yng nghymunedau Gwynedd, mae Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd - yn cynnal arolwg er mwyn cael barn y cyhoedd am yr hyn y dylid ei wneud er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

Fel y sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, mae gan Wynedd rôl allweddol i'w chwarae yn ffyniant a dyfodol yr iaith.

Pwrpas Hunaniaith ydi hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, plant a phobl Ifanc ac mewn cymunedau ar draws y sir drwy gynnal prosiectau, gweithgareddau a chydweithio gyda grwpiau, sefydliadau ac ysgolion.

Mae'r fenter iaith yn awyddus i gasglu syniadau newydd am yr hyn yr hoffent ei weld yn ystod cyfnod anodd y coronafeirws yn ogystal a'r dyfodol ac am gyflwr a defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Dywedodd Dafydd Iwan, Cadeirydd Hunaniaith: "Gan mai prif rôl Hunaniaith yw hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned, rydan ni yn awyddus i gael barn a syniadau pobl Gwynedd am yr hyn y dylid ei gynnwys yn rhaglen waith y dyfodol.

"Rydan ni am gael gwybod pa fath o brosiectau a gweithgareddau y dylid eu blaenoriaethu, sut all Hunaniaith wneud y defnydd gorau o arian i hybu'r Gymraeg a beth yw barn y cyhoedd ar rôl menter iaith fel Hunaniaith? Mi fyddwn i'n annog unrhyw un sydd am weld yr iaith yn ffynnu yng Ngwynedd i ddweud eu dweud."

Meddai'r Cynghorydd Nia Jeffreys, yr Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y maes:

"Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn rhai heriol iawn oherwydd yr argyfwng coronafeirws. Gyda nifer o ddigwyddiadau a gweithgareddau wedi gorfod cael eu canslo neu eu gohirio, mae Hunaniaith yn awyddus i gasglu syniadau trigolion ar gyfer y dyfodol.

Mae mwyafrif o drigolion Gwynedd yn siarad Cymraeg felly rydan ni eisiau gwybod mwy am ddefnydd pobl o'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau. Rydan ni am weld lle gallwn ni wella yn ein rôl i ddiogelu a thyfu'r iaith yng Ngwynedd.

"Hoffwn annog pawb i lenwi'r arolwg byr. Bydd eich sylwadau o help mawr i ni wrth gynllunio i'r dyfodol."

I gymryd rhan yn yr arolwg, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori - bydd yr holiadur ar agor tan 26 Mehefin 2020.

# Llyfr newydd i ddathlu'r twf mewn cefnogaeth i annibyniaeth!

Mae Gwasg y Lolfa'n paratoi cyfrol ddwyieithog i drafod a dathlu'r twf mewn cefnogaeth i Annibyniaeth i Gymru. Bydd y gyfrol yn cynnwys detholiad o straeon gan unigolion sydd wedi tystio i'r twf yma ers Ewros 2016, sydd wedi ymuno â'r ymgyrch yn sgil refferendwm Brexit neu wedi penderfynu yn nyddiau'r Coronavirus mai annibyniaeth i Gymru yw'r unig ffordd ymlaen.

Meddai golygydd y gyfrol, Mari Emlyn: "Byddai'n dda cael straeon o bob cwr o Gymru yn nodi pam eich bod chi wedi dewis cefnogi annibyniaeth i Gymru. Beth oedd y sbardun i chi gefnogi'r ymgyrch? Pam bod angen annibyniaeth? Byddai'n dda hefyd pe gallech anfon lluniau ohonoch chi a'ch teulu/ffrindiau i gyd-fynd â'ch profiad – yn yr Ewros yn 2016, mewn cyfarfodydd canghennau Yes Cymru, ar un o'r gorymdeithiau dros Annibyniaeth, o fewn eich cymuned neu yn eich cartref yn ystod y *lockdown*."

Cysylltwch gyda Mari Emlyn i gynnig eich lluniau a'ch straeon: mari.emlyn@btinternet.com. Dyddiad cau derbyn deunydd yw **1 Mehefin, 2020.**




MODURDY FFRYDLAS

Profion M.O.T.

Perchennog
**A. Ll. Williams**

**Stryd Fawr, Bethesda**
**♦ PROFION M.O.T. ♦**

**GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO ♦TEIARS A BATRIS♦ GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN**

☎ 600723
Ffacs: 605068



**Dolgoch yn dawel.**

## Bethesda

Mary Jones,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
Joe Hughes, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Elfed a Rita Bullock, 8 Maes y Garnedd, ar ddathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol. Y dyddiad holl bwysig oedd 4 Ebrill 1970! Mae'n siŵr y cewch ddathlu o ddifri' efo'r teulu pan fydd y feirws felltith 'ma wedi cilio! Tan hynny, dymuniadau gorau i chi, a chadwch yn ddiogel!

**Diolch**
Dymuna Elfed a Rita Bullock ddiolch i bawb am gofio amdanynt ar achlysur eu Priodas Aur ar 4 Ebrill. Diolch yn fawr am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da!

Hefyd mae Elfed yn ddiolchgar iawn i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd ar 13 Ebrill.

**Pen-blwydd Arbennig**
Dymuniadau gorau i Glenys Morgan, 5 Maes Coetmor a fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 2 Mehefin.




**JOHN ROBERTS**



Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr

Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

www.llaisogwan.com
@Llais_Ogwan

**Yr Eglwys Unedig**
Cyfarchion oddi wrthym fel swyddogion a blaenoriaid!

Trefniadau
Gan bod drysau'r Capel ynghau, 'rydym yn cadw cysylltiad gyda'r aelodau drwy weithredu system rota sy'n golygu ein bod yn ffonio'r aelodau yn eu cartrefi am sgwrs yn rheolaidd, ac mae'r ymateb ganddynt yn werthfawrogol dros ben. Cofiwch gysylltu os byddwch angen cymorth gydag unrhyw beth – fe wnawn ein gorau i'ch helpu.

Gwasanaethau
Cofiwch bod gwasanaethau ar gael ar y teledu a'r radio, a hefyd ar y cyfryngau digidol, ar y Sul – gobeithio y cewch gysur o fod yn rhan ohonynt.

Profedigaeth
Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth Mrs Medi Williams – un arall o'n haelodau ffyddlonaf, ac un a ymroddodd gydag afiaith i bob agwedd o weithgareddau'r Capel. Bydd colled ar ei hôl, ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Nia a Gwyn a'u teuluoedd. Cynhelir gwasanaeth coffa yn y Capel pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Diolch
Yng nghanol ein pryderon, rhaid diolch am wanwyn gyda'r tlysaf erioed, a diolch hefyd am gael byw mewn dyffryn mor hardd – yn sicr mae gennym le i 'gyfrif ein bendithion.' Diolch hefyd i bawb yn yr ardal sydd yn gofalu am gymdogion a ffrindiau ac yn gwneud ein cymuned yn un i ymfalchïo ynddi.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Trist oedd clywed am farwolaeth Evan Williams, gŵr Betty Williams (cyn-aelod seneddol etholaeth Conwy) wedi salwch byr. Bu'n gyswllt cyfeillgar yn cymryd negeseuon tra'r oedd Betty oddi cartref, ac yn gefn iddi yn ei gwaith trylwyr.

Ni fu cyfarfodydd na gweithgareddau yn Ogwen nag etholaeth Arfon yn ystod mis Ebrill (e.e. canslwyd y bore coffi) oherwydd problemau'r coronafeirws, ond croesawyd canlyniadau'r bleidlais i gael arweinydd ac is-arweinydd newydd i Blaid Lafur Prydain. Edrychir ymlaen at arweiniad Kier Starmer. Diolchwyd am ymdrechion Llywodraeth Lafur Cymru a phobl leol i ymdopi â'r sefyllfa ddigynsail sy'n wynebu pob un ohonom.

## Llythyrau

**Damweiniau Awyrennau yn ardal Eryri a'r cylch**
Wedi darllen rhifyn mis Mawrth, a sylwi ar hanes damwain awyren yn Cwm Llafar ar 15eg Mawrth 1950, mae'n werth dweud bod dros gant o awyrennau wedi cael damweiniau yn ardal Eryri a'r cylch, a bod pump wedi eu colli ar fynyddoedd lleol, fel y gwelwch isod:

17/10/42: Douglas Boston ar Garnedd Dafydd, (dim ond un yn fyw)
09/12/57: Electric Canbera ar Garnedd Llywelyn, (neb wedi byw)
18/08/43: Lockhead Ventura ar Garnedd Dafydd, (neb wedi byw)
19/07/42: Vickers Wellington ar Ysgolion Duon, (neb wedi byw)
22/12/42: Vickers Wellington ar Yr Elan, (neb wedi byw.)

Cofnodwyd hefyd bod damweiniau ym Mhenmaenmawr (03/08/41), Aberdaron (03/02/43), ger Bangor (31/10/42), ac ar yr Wyddfa (11/08/52). Ond, cafwyd llwyddiant yn Llanfairfechan (07/01/44), pan achubwyd chwech allan o saith teithiwr.

Ond dau mai'r drychineb fwyaf o ran colli bywydau oedd ar 10/01/52 pan gwympodd awyren o gwmni Air Lingus yn Cwm Edno, ger Nant Gwynant, lle bu farw y criw o dri, ac ugain oedd yn teithio ynddi ar y daith o Llundain i Ddulyn. Credir fod yr awyren wedi suddo mor ddyfn i'r tir corsiog, fel nad oedd modd cael hyd i'r cyrff i gyd, o. Y mae'r rhai a ganfuwyd wedi'u claddu ym mynwent Llanbeblig, Caernarfon.

**Gareth Jones**, Pantglas, Bethesda.

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

# Llyfrgelloedd Gwynedd ar gael o adref

Ydych chi'n gweld colled heb eich llyfrgell leol? Wel, diolch i dechnoleg mae modd lawrlwytho pob math o adnoddau gan Llyfrgelloedd Gwynedd ar-lein.

O ganlyniad i Covid-19, bu'n rhaid i lyfrgelloedd a mannau cyhoeddus gau. Ond, diolch i'r cynnig digidol sydd ar gael trwy arlwy Llyfrgelloedd Cymru, mae modd cael gafael ar bob math o adnoddau am ddim trwy unrhyw ddyfais sydd gennych wedi'i gysylltu gyda'r we - er enghraifft e-lyfrau, e-lyfrau llafar trwy Borrowbox, e-glychgronau ac e-gomics trwy 'RB digital' a gwefan hel achau 'Ancestry'.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lyfrgelloedd: "Mewn cyfnod lle mae pawb adref am gyfnodau hir, mae hi'n bwysig i ni gyd ddiddanu ein hunain a chadw'n brysur. Mae adnoddau fel hyn am fod yn gysur mawr i nifer o bobl, yn enwedig gan ei fod ar gael yn rhad ac am ddim."

"Mae modd cael yr adnoddau hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn addas i oedolion, plant a phobl ifanc. Dyma gyfle da i bawb gael adnoddau i'n cadw ni'n ddiwyd mewn cyfnod poenus."

Gallwch weld popeth sydd ar gael trwy ymweld a www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol.

Cofiwch, fod angen bod yn aelod o'ch Llyfrgell yn gyntaf! Ond mae ymaelodi yn broses syml ar y wefan, ac yna gallwch gael mynediad at yr holl adnoddau digidol.

# Cymunedau Digidol Cymru

Mae Cymunedau Digidol Cymru a Hwb (llwyfan dysgu digidol Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion) yn galw ar y cyd ar blant i fod yn 'Arwyr Hwb' ac ymuno â'r frwydr yn erbyn unigedd. Mae Cymunedau Digidol Cymru a Hwb yn gofyn i bobl ifanc fod yn greadigol ar y llwyfan dysgu a chyflwyno deunyddiau megis gwaith celf, posteri, cerddi, straeon, lluniau a fideos a fydd wedyn yn cael eu cyhoeddi ar Hwb. Bydd cynnwys y plant yn cael ei rannu'n eang â'r genhedlaeth hŷn a phobl agored i niwed ar ffurf negeseuon o obaith a chymorth sy'n dangos bod plant Cymru yn poeni.

# Cyfle i wella eich sgiliau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg ac o gysur eich cartref



Yn ystod yr amser digynsail hwn, mae cynhyrchu a dosbarthu digidol wedi dod yn 'ffordd o fyw' i'r mwyafrif ohonom gyda bron pob cyfathrebiad cymdeithasol a phroffesiynol yn cael ei gynnal trwy sianeli digidol.

Cyn argyfwng Coronafeirws, derbyniodd prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y diwydiant digidol a chyfryngau. Prif amcan y prosiect hwn yw cefnogi cwmnïau a sefydliadau Cymru trwy ddarparu hyfforddiant rhad ar dechnoleg a datblygiadau newydd yn y meysydd cynhyrchu digidol a chyfryngau.

Ychydig a feddyliom y byddai'r fenter hyfforddi arbenigol hon yn dod yn hanfodol i helpu busnesau a sefydliadau i amddiffyn eu hunain rhag effaith argyfwng Coronafeirws.

Trwy gydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, cyflwynir ein hyfforddiant mewn fformat hyblyg sy'n ymateb i'r diwydiant ac sy'n galluogi i fyfyrwyr weithio trwy ddysgu o bell â chymorth i ddiweddaru eu gwybodaeth dechnegol, gwreiddio diwylliant ymchwil yn y gweithle ac, os dymunant, weithio tuag at gymwysterau ôl-raddedig wedi'u teilwra i anghenion eu diwydiant. Gan fod y cynllun wedi cael cefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop trwy Lywodraeth Cymru gallwn gynnig hyfforddiant ar lefel Meistr i fusnesau / gweithwyr ar gyfradd â chymhorthdal mawr o £165.00 y modiwl fesul gweithiwr – mae modiwlau o'r lefel academaidd ac arbenigedd hyn fel arfer yn costio hyd at £1000 felly mae hwn yn arbediad sylweddol. Gellir cyflwyno'r modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog.

Dyluniwyd ein rhaglen sydd ar-lein i raddau helaeth i ganiatáu i fyfyrwyr astudio heb yr angen i gymryd amser allan o'r gwaith ac mae'n ddigon hyblyg i ffitio astudio o amgylch gwaith ac ymrwymiadau eraill.

Un o'r sefydliadau sydd eisoes wedi cymryd mantais o'r cynnig hwn yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel yr eglura Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol y Llyfrgell:

"Rydyn ni'n ymwybodol bod angen hyrwyddo ein gweithgareddau drwy amrywiaeth o sianeli digidol ac mae'n ddisgyblaeth sy'n esblygu'n barhaus. Mae'r cyfle hwn i hyfforddi yn rhoi gwell offer a sgiliau i'n staff er mwyn iddyn nhw allu hyrwyddo gwaith y Llyfrgell ar blatfformau digidol mewn ffordd fwy creadigol ac arloesol, ac mae hefyd yn cyfrannu at eu datblygiad personol parhaus".

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen a'r meini prawf cymhwyso, cysylltwch â'r tîm Cynhyrchu Cyfryngau Uwch ar 07939 203938 neu ccu-amp@aber.ac.uk neu ewch i: amp.aber.ac.uk.

**www.llaisogwan.com**
**Trydar: @Llais_Ogwan**

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
**CONTRACTWYR TOI**
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**www.llaisogwan.com**
**@Llais_Ogwen**

# Cadwyn Ogwen




Cadwyn Ogwen yw menter ddiweddaraf Partneriaeth Ogwen i helpu pobl yr ardal i gael bwyd a chynnyrch lleol yn ystod yr argyfwng ac helpu ein busnesau bach lleol yr un pryd. Sefydlwyd y prosiect mewn ymateb i bryderon busnesau lleol, a'u gallu i gyflenwi bwyd yn ystod yr argyfwng. Mewn cwta fis, roedd Partneriaeth Ogwen wedi ymateb i'r her gan sefydlu platfform arlein i bobl brynu nwyddau lleol a system ddanfon yn Carwen y car cymunedol trydan. Gall unrhyw un sy'n byw yn nalgylch Dyffryn Ogwen brynu cacennau, bwyd môr, llysiau, cawsiau a iogwrt lleol ar wefan Cadwyn Ogwen a bydd y cynnyrch yn cael ei ddanfon i'ch drws ar y dydd Mawrth dilynol. Sefydlwyd y cynllun gan Bartneriaeth Ogwen mewn partneriaeth â Chwmni Bwyd Môr Menai, Cosyn Cymru, Yr Ardd Fadarch a Blas Lôn Las. Y bwriad yw helpu cynhyrchwyr lleol i werthu eu cynnyrch yn ystod y pandemig a hyrwyddo bwyd da lleol. Mae Partneriaeth Ogwen wedi ail-gyfeirio grantiau ac egnion eu staff i ddatblygu'r prosiect mewn byr o amser. Mae'r arian grant yn cynnwys arian grant Rhaglen Arfor sy'n cael ei weinyddu gan Cyngor Gwynedd. Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas –

"Rydym yn falch iawn fod Rhaglen ARFOR wedi gallu cefnogi Partneriaeth Ogwen i ymateb mor sydyn i ddarparu gwasanaeth newydd i Ddyffryn Ogwen. Mae'n cynnig platfform digidol i ddod a chyflenwyr bwyd lleol at i gilydd i greu cyfleuster newydd i bobl cael mynediad i gynnyrch lleol. Mae'n enghraifft da o'r gymuned yn cydweithio er lles unigolion a'r economi leol sy'n ymateb i'r her rydym ynddi rŵan, ag yn rhoi cyfle i fusnesau dal i fod yn fasnachol mewn amser bregus iawn."

Gyda chymorth y grant, rydym hefyd wedi penodi Patrick Rimes a Jan ac Alun Davies i arwain ar y gwaith pecynnu a danfon yn lleol. Ers i'r wefan ddechrau gwerthu, mae'r ymateb yn lleol wedi bod yn wresog tu hwnt gyda phawb yn ddiolchgar am y cyfle i brynu cynnyrch lleol. Mae pob ceiniog o'r gwariant yn aros yn lleol. O'r cwmni lleol ddyluniodd y wefan i'r cynnyrch lleol gwych sy'n cael ei werthu. Mae'r holl staff sy'n gweithio ar y prosiect yn byw a gweithio yn lleol a mae hyd yn oed y pwer i bweru Carwen hefyd yn dod o baneli solar Ynni Ogwen. Mae Cadwyn Ogwen felly yn gynllun gwych o ran cefnogi'r economi sylfaenol yn lleol. Rydym bellach yn tyfu a mae mwy o gynhyrchwyr newydd wedi dechrau ymuno â'r fenter, yn cynnwys Cacennau Lois Cupcakes, Becws Pesda a Siop Ogwen. Ewch am sbec i www.ogwen.cymru/Cadwyn-Ogwen


**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076
**williamshy@parliament.uk**

**Ogwen**
Adferiad Corfforol
Physical Rehabilitation
**Proffesiynol, diogel a chyfrinachol**
LLEDDFU POEN Cefn, cyhyrau, esgyrn, cymalau, a thensiwn cur pen
Eli Lichtenstein
✆ 07743373895 Ogwen.Physical.Rehab@gmail.com

# Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Llongyfarchiadau**

Mae Cyngor Llyfrau Cymru wedi cyhoeddi enwau'r llyfrau sydd ar restr fer Gwobrau Tir-na-Nog 2020 ac mae lle amlwg eleni i lyfrau sy'n trafod pynciau dwys. Un o'r llyfrau sydd ar y rhestr cynradd yw Pobol Drws Nesaf gan Manon Steffan Ross a Jac Jones a gyhoeddwyd gan Wasg y Lolfa. Mae'r llyfr am inni beidio â beirniadu rhywun sy'n ymddwyn ac yn edrych yn wahanol i ni, ac yn dangos bod yn rhaid parchu pawb. Un o Rhiwlas yw Manon ac mae hi wedi ennill y wobr yma sawl gwaith yn y gorffennol - pob lwc i ti eleni ! Llongyfarchiadau i ti hefyd Manon ar lwyddiant yn llwyfannu Llyfr Glas Nebo.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Rory, Tai Caeau Gleision gynt, a'i gymar ar enedigaeth hogyn bach, Toby. Ein dymuniadau gorau i chi ac i Nain a Taid Rhiwlas, ac i Inez a Gwyn, Caeau Gleision ar ddod yn hen nain a thaid i'r bychan.

**Y Coronavirus**

Mae'n gyfnod dyrys a phryderus iawn a sawl peth wedi'i ohirio - dim mynychu Capel nac Eglwys, dim cyfarfodydd yn y neuadd nac ysgol i'r plant, ciwio yn y siopau a'r holl gyfyngiadau ar lu o weithgareddau eraill. Rai misoedd yn ôl fe drefnodd Kate, Bronnydd, gyfarfod Paned a Sgwrs yn y neuadd ar gyfer dysgwyr a drwy'r cyfnod yma mae wedi parhau ar y we. 'Rwy'n clywed ei fod yn llwyddiannus hefyd - daliwch ati!

**Ymdopi â'r Covid 19**

Gofynnais i'r canlynol am eu profiadau a'u sylwadau am y cyfnod yma:Linda Jones, Dilys Parry, Jean Jones ac Elwyn Jones. Diolch iddynt am gytuno i rannu eu profiadau.

**Linda Jones**

Erbyn hyn, rydym ni, Mel y gŵr a finna, wedi hunan-ynysu ers bron chwe wythnos, gan ein bod yn y categori sydd bellach, yn swyddogol, yn "oedrannus." Mae gardd nobl yma, sydd yn caniatáu i ni drio cadw'n heini tra'n cadw trefn ar y chwyn a'r tyfiant llai egniol. Diolch am ddyddiau braf a haul cynnes y Gwanwyn. Rydw i, ar hyn o bryd, yn cefnogi grŵp o wirfoddolwyr makingmasks99@gmail.com sydd yn gwnïo masgiau. Maent yn cael eu casglu o ddrws y tŷ, eu golchi ar dymheredd uchel mewn canolfan cyn eu dosbarthu, yn ôl y galw, i gartrefi gofal.

Erbyn hyn , gan fod nifer o fasnachwyr lleol yn danfon eu nwyddau yn wythnosol neu yn ôl y gofyn, ac ambell "slot" o'r archfarchnad, rydym yn ymdopi heb i ni orfod mynd allan i siopa. Gobeithio y byddwn i gyd yn cofio a chefnogi'r bobl yma pan fydd yr ynysu drosodd.

Ein pleser pennaf, yw'r cyfleoedd i wrando, chwarae gemau a chadw cwmni i Nel a Tomi yng Nghaerdydd a chael gweld Telyn fach yn tyfu o dan ein trwynau yn Vancouver. Diolch, diolch am y cyfryngau cymdeithasol.

**Dilys Parry**

Yng nghanol yr holl drafferthion mae'r gwanwyn yn y tir ac yn rhoi hwb i fynd allan i'w fwynhau. Mae ffos ar ochr llwybr y byddaf yn cerdded heibio bob diwrnod ac yn nechrau Chwefror a sylwi ar y grifft yn un clystyrau a wir erbyn hyn mae'r penbyliaid yn tyfu ac wrth sefyll a sylwi arnynt beth welais ond gena-goeg a minnau heb weld un ers blynyddoedd maith. Dwi wedi sylwi hefyd fod yna lawer mwy o loynnod byw i'w gweld eleni ac mi welais fuwch goch gota ac heb weld yr un o'r rhain y flwyddyn ddiwethaf. Braf ydy gweld Llygaid Ebrill, Blodau'r gwynt, Gold y gorsa'r fioledau yn eu lliwiau llachar. 'Roeddwn wedi clywed ar Radio Cymru fod y gwenoliaid a'r gog wedi cyrraedd gwahanol leoliadau ac rwy'n falch o ddweud fod y gog wedi cyrraedd Maes Meddygon a Phen y Ffridd hefyd. Eisin ar y gacen!

(ON Os ydwi'n cofio'n iawn fe fyddai'n gystadleuaeth flynyddol rhwng Dilys a'r diweddar John Huw i weld pa un oedd y cyntaf i ddod ar draws Llygaid Ebrill)

**Jean Jones**

Dyddiau rhyfedd – fel byw mewn rhyw fath o wacter ar brydiau, er bod yr amser yn hedfan. Roeddwn wedi gweld hyn yn gyfle gwych i ail drefnu a glanhau'r tŷ o'r top i'r gwaelod ond mae gen i ofn na "mañana"ydy hi wedi bod y rhan fwyaf o'r amser. Wel, be dw i wedi bod yn ei wneud ? Siarad gormod ar y ffôn, anfon a derbyn negeseuon gan deulu a ffrindiau ar What's App a Threema. Hefyd gwneud posau fel croeseiriau, darllen y newyddion diweddaraf ar y ffôn a mynd i'r gwely yn rhy hwyr. Mae gofalu am yr anifeiliaid h.y. dau gi a dwy gath, yn mynd â darn helaeth o'r amser - a hynny ddydd ar ôl dydd. Rwyf wedi bod yn coginio sawsiau ar gyfer pasta a chawl ac yna'n eu rhewi. Mae'r tywydd wedi bod yn syndod o ddymunol ac rwy'n ddiolchgar iawn fod gen i ardd.Rwyf wedi bod yn lwcus o gael bwyd yn cael ei ddanfon bron bob wythnos ac mae cymdoges sy'n gweithio mewn archfarchnad yn dod ac ambell beth dw i ei angen ar fyr-rybudd.

**Elwyn Jones**

A ninnau erbyn hyn, fis i mewn i'r hunan-ynysu, mae rhywun yn dechrau dygymod â'r newidiadau sydd wedi dod i'n rhan yn sgîl y Covid 19 angeuol 'ma, os mai dygymod 'di'r gair iawn hefyd.

Gan fod Margaret, y wraig, a finna, yr ochr anghywir i oed yr addewid 'aroswch adra' oedd ordor y llywodraeth; a felly ma'i 'di bod, fwy neu lai, er mod i yn cael mynd i siopa fy hun rwan – am agoriad llygad!

Fel Cynghorydd Sir a Clerc Cyngor Pentir mae wedi cael effaith mewn dwy ffordd mewn gwirionedd. 'Does dim math o gyfarfod wedi bod ers dechrau Mawrth, ond mae'r gwaith cymunedol yn parhau ac wedi cryfhau. Cafodd grŵp o wirfoddolwyr cymunedol ei sefydlu yn Rhiwlas a Phenisarwaun, a hoffwn ddiolch i bob un gwirfoddolwr/aig am gamu ymlaen i gymryd cyfrifoldeb dros ran fechan o'r gymuned.

O ran diddordebau, pêl-droed iau ac amaethyddiaeth; mae'r peldroed iau wedi diflannu'n llwyr, ynghyd â phob math o chwaraeon arall, wrth gwrs.

Diolch i'r drefn, mae gyno ni 'chydig o anifeiliad, a rhaid mynd o amgylch a bwydo'r rheiny, ar fy mhen fy hun, wrth gwrs. Cafwyd tymor yna llwyddiannus iawn, a'r tywydd da wedi bod yn help garw efo hynny. Mi fyddem ni wedi gwerthu rhai o'r anifeiliad erbyn hyn, ond oherwydd y feirws chewch chi ddim aros yn y farchnad i'w gwerthu, dim ond eu gollwng yno a mynd, gyda'r gobaith y gwnaiff yr arwerthwyr eu gwerthu nhw am eich pris disgwyledig neu fwy.

Tydi hi ddim yn hawdd, felly, ar ffermwyr go iawn, ac rydw i'n llawn edmygedd ohonynt, ynghyd wrth gwrs, â gweddill y gweithwyr allweddol sydd yn cario ymlaen efo'u gwaith - athrawon, gweithwyr siopa, postmyn, gyrrwyr lorïau, yr heddlu a'r gwasanaethau brys eraill.

Ond yn anad dim, DIOLCH o waelod calon i HOLL WEITHWYR y Gwasanaeth Iechyd sy'n rhoi eu bywydau eu hunain, a'u teuluoedd, yn y fantol.

Diolch i bob un ohonoch chi.

**Y gog**

Er fod pethau'n anodd ar y funud mae'n gysur meddwl fod rhai pethau'n aros yr un fath: do, fe ddaeth y gog eleni eto i Gae Mawr. Cyrhaeddodd ar Ebrill 19, dim ond un diwrnod yn hwyrach na'r llynedd. Dywed Einir fod ei mam, y ddiweddar Meirwen Owen, Fron Deg, yn ddi-ffael yn adrodd y rhigwm yma pan glywai fod Einir wedi clywed y gog:

Cymraeg yw y gog mae'n sicr i chi,
Cymraeg o hyd mae'n ganu,
Cymraeg oedd hi'n ganu ddeng mlynedd yn ôl
A Chymraeg mae hi'n ganu eleni.

Rhaid imi gofio am y rhigwm yma pan glywaf y gog eleni.

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

# John Huw

Bu farw John Huw Evans , yn 93 oed fis Chwefror. Yn ei angladd traddodwyd y deyrnged deilwng hon i un o hoelion wyth y Dyffryn, a chyfaill mawr i'r Llais.

Roeddwn i wedi nabod John Huw ar hyd fy oes. Efallai nad ydi hynny ddim yn ffeithiol gywir, ond mae'n teimlo felly i mi. Anodd cofio yn union pryd ddaru ni gyfarfod am y tro cyntaf. Fodd bynnag, dwi'n amau'n gryf mai dylanwad Dafydd Orwig ddaeth â ni at ein gilydd yng nghanol y chwedegau. Ymgyrchu dros Blaid Cymru wrth gwrs – y ddau ohonom yn genedlaetholwyr rhonc – â'n cyfeillgarwch yn cychwyn o'r fan honno.

Ond nid gwleidyddiaeth Cymru oedd yr unig beth oedd yn gyffredin i'r ddau ohonom! Wrth gwrs, bod yr iaith a'r diwylliant yn agos at ein calonnau, ond roedd y capel a'r gwerthoedd Cristnogol yn bwysig iawn i'r ddau ohonom. Yr oedd John yn athro Ygol Sul yn Eglwys Pisgah, Rhiwlas am flynyddoedd maith, a dydi Rhian ddim yn cofio adeg pan nad oedd yn mynd ati ar ddiwedd wythnos i baratoi at y Sul â'i ddosbarth oedolion. Roedd gwaith dyngarol Cymorth Cristnogol mor bwysig ganddo, nes iddo ddod yn drefnydd wythnos y casglu yn ardal Rhiwlas am flynyddoedd lawer.

Mae'n siŵr fod cydweithio ar Llais Ogwan wedi dyfnhau'r cyfeillgarwch hefyd. Roedd gan John Huw gryn ddawn fel ysgrifennwr, yn cystadlu mewn eisteddfodau – ar y stori fer gan amlaf – ac fe gipiodd y wobr gyntaf sawl gwaith yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen dros y blynyddoedd. Dim rhyfedd felly iddo droi at gasglu ac ysgrifennu newyddion Rhiwlas a'r cylch i'r Llais. Bu'n gwneud y gwaith gwirfoddol hwnnw ers y flwyddyn 2000 - yn ohebydd trylwyr a chydwybodol. Cyn hynny bu'n Gadeirydd ar fwrdd Llais Ogwan am gyfnod maith. Roedd yn meddwl y byd o'r Llais!

Deuthum i adnabod John, hyd yn oed yn well, pan ymunais a'r Pentan yn niwedd y nawdegau! Cylch Trafod i ddynion oedd y Pentan y bu John yn llywydd arno yn y flwyddyn 1990 – 1991, ac fe'i etholwyd yn llywydd eto am y flwyddyn 2013-14 - dim ond i'w afiechyd ei rwystro! Fel pawb ohonom 'roedd yn ofynnol iddo ddewis testun i "Agor y Mater" bob dwy flynedd. Nid yn unig 'roedd ei destunau'n ddiddorol – megis "Stori ail-law", "Gwahoddiad i Swper", "Cribinio'r Dychymyg", "Pwy fuasai'n Meddwl", "Llên Plentyndod", a'r olaf ganddo yn Nhachwedd 2011, "Hel Cribinion". 'Roedd yn bleser gwrando arno'n traethu ac yn trafod mor ddifyr gan dynnu ar ei brofiadau personol. Mi ddysgais i lawer amdano yn y sesiynau hyn!

Mi ddysgais i lawer am John hefyd wrth sgwrsio amdano hefo Rhys a Rhian rhyw noson yn ddiweddar yng nghartref Rhian yn Rhiwlas.

Ganwyd John ar 4 Awst 1926 yn ail blentyn i Morris ac Elisabeth Evans, ac yn frawd i Gruffydd (neu Guto). Fe'i magwyd yn Rhiwlas, a chafodd ei addysg yn ysgolion Rhiwlas a Bethesda. Mae'n debyg fod ffermio a bywyd cefn gwlad yn ei waed, gan iddo fynd i weithio ar Fferm Carreg y Gath, Rhiwlas wedi ymadael â'r ysgol. Ymlaen i Goleg Amaethyddol Madryn yn Llŷn, cyn mynd i Goleg Amaethyddol Aberystwyth. Yn dilyn ei hyfforddiant, bu'n Swyddog yn y Weinyddiaeth Amaeth hyd ei ymddeoliad yn 60 mlwydd oed. A deud y gwir, doedd o ddim yn awyddus iawn i ymddeol, gan mor hoff oedd o o'i waith yn crwydro yma ac acw i gynnig cyngor i ffermwyr.

Cymeriad clên a diymhongar oedd John. Dim arlliw o'r **Fi Fawr** yn agos ato, ond er nad oedd Rhys a Rhian yn cofio ei glywed yn dweud gair drwg am neb, doedd o **ddim** yn hoff o bobl oedd yn credu eu bod nhw'n bwysig. Iddo fo yr oedd pawb mor bwysig â'i gilydd!

Yn bendifaddau, dyn ei filltir sgwâr oedd John Huw, ond eto roedd wrth ei fodd yn mynd ar wyliau dramor i lefydd fel Llydaw, Ffrainc a Gwlad Belg. Ac roedd yn gartrefol a chyfforddus efo pawb. Mae gan Rhys stori amdano yn Ffrainc. Roeddan nhw wedi colli John ers sbelan, yn methu gwybod beth oedd wedi digwydd iddo. Daeth i'r fei toc – wedi bod yn dal pen rheswm hefo rhyw hen fachgan bach clên o Ffrancwr – er nad oedd John yn medru gair o Ffrangeg! Un fel yna oedd John – dod i nabod pawb ac yn tynnu sgwrs!

Ie! Hogyn o Rhiwlas oedd John, a hogan o Rhiwlas oedd Heulwen hefyd. Priodi yn 1958, a'r ddau yn dathlu eu priodas ddiemwnt ychydig cyn colli Heulwen. Ymgartrefu yn Rhiwlas, a magu dau o blant, sef Rhys a Rhian - yn Rhiwlas!

Ond sut fagwraeth gafodd y plant? Dyma beth ddywed Rhian:-

"Mam oedd yn dwrdio yn tŷ ni. Roedd cael ffrae gan dad yn golygu bod pethau wedi mynd yn **ddrwg iawn**. Mae'r rhan fwyaf o fy atgofion amdano yn ymwneud â dad yn helpu pobl eraill neu fynd i wneud rhywbeth ynghlwm â chenedlaetholdeb.

Adeg etholiad, dad fyddai'r un wastad hefo sticar Plaid Cymru – Dafydd Wigley/Hywel Williams – ar y car, er nad oedd i fod i gael un gan ei fod yn gweithio i'r llywodraeth. Cafodd ffrae am hynny dwi'n cofio. Yr oedd yn canfasio yn frwd dros y Blaid ac wedi gwneud hynny gyda Dafydd Orwig yn y blynyddoedd cynnar. Cofio mynd i'r cyfri yng Nghaernarfon y tro cyntaf aeth Dafydd Wigley i mewn a dad yn canu corn y car yn orfoleddus tu allan i dŷ aelod blaenllaw o blaid arall, a hynny am ddau o'r gloch y bore neu hwyrach!

Ond dyn tawel oedd dad yn y bôn. Fe ddywedodd wrthyf rhywbryd mai'r peth gorau y gallai rhywun roi i rhywun arall fyddai eu hamser, ac yr oedd yn gweithredu ar hyn. Un peth fyddai yn fy synnu amdano fyddai ei fod wastad yn cofio pob sgwrs yr oedd wedi ei chael gyda pobl eraill. Byddai yn cofio enwau eu plant ac yn ymfalchio yn eu llwyddiannau.

Roedd Neuadd Bentref Rhiwlas yn hynod bwysig iddo ac yr oedd yn falch o fod yn Gadeirydd y Pwyllgor yn ystod cyfnod adeiladu'r Neuadd newydd. Ond fe ddwedodd sawl gwaith na fu iddo fo wneud fawr ddim gan mai Iona, yr ysgrifennydd, a Guto'r trysorydd oedd wedi gwneud y gwaith i gyd.

Yr oedd yn falch iddo fyw digon hir i weld Heledd a Morgan, yr wyrion, wedi cael swyddi. Yr oedd yn meddwl y byd ohonynt a hwythau ohono yntau. Ni fu dad yn llwyddiannus yn dysgu enwau adar i mi ond cafodd gyfle unwaith eto hefo Heledd a Morgan. Y mae ganddynt lu o atgofion o sut y bu iddynt gael eu magu o amgylch Rhiwlas gan nain a taid.

Yn fwyaf diweddar, ac yntau bron yn 93, cafodd dad y pleser o fynychu Rali Fawr Annibyniaeth Yes Cymru yng Nghaernarfon fis Gorffennaf diwethaf. Yr wyf mor falch i ni lwyddo i fynd â fo yno ac iddo fwynhau'r profiad ar y maes yng Nghaernarfon. Yr oedd trafodaeth rhyngom ynglyn â mynd a fo i Wrecsam ar gyfer Rali mis Ebrill, ac fe fyddai wedi gwneud ei orau i geisio cyrraedd yno. Oedd, 'roedd yr angerdd dros Gymru ynddo hyd y diwedd!

Meddai Rhian wedyn, "Byddai'r ddau ohonom yn cael oriau o bleser ym Mhlas Pengwaith yn cwblhau Croesair Llais Ogwan a cwis Y Faner Newydd (gyda llaw fe gyflwynodd Y Faner Newydd Dlws Coffa Eurig Wyn i John am gyfraniad oes i ddiwylliant Cymru). Trafod croesair Llais Ogwan oeddem y tro diwethaf y bu i mi siarad gydag ef.

Yr oedd yn hynod falch o dderbyn llythyrau yn y cartref ac o gael ymweliadau. Yr oedd rhai yn ymweld yn gyson a diolch am hynny. Yr oedd yn gwerthfawrogi pob ymweliad.

Dangosodd dad ei gryfder tawel yn y blynyddoedd dreuliodd o ym Mhlas Pengwaith. Ddaru o gwyno dim, ac er bod yr heriau yn niferus iddo gyda'i gorff yn mynd fwy a mwy bregus, fe wynebodd bopeth gyda gwên. Diolchwn fel teulu iddo gael bod adref hefo ni am ginio Nadolig llynedd eto, ac iddo gael pleser yn agor ei anrhegion.

Un peth fyddai dad yn ddweud wrth i bobl ddod acw i'n tŷ ni fyddai 'Diolch am Alw'. Yr oedd wastad yn ddiolchgar i bobl. Rwy'n siwr mai dyna beth yr hoffai ddweud wrth bawb sydd yn mynychu ei angladd – Diolch am Alw."

Diolch i Rhian am rannu ei hatgofion, ac wrth iddi sôn am Blas Pengwaith, mae'n rhaid i mi ddweud y byddai'n bleser bob amser, gan Angharad a minnau alw i'w weld yn y cartref hwnnw. Roedd o mor groesawus, a'i sgwrs yn fywiog ac yn felys, a honno'n para am rhyw awr – mwy neu lai! Roedd ei feddwl mor glir a'i gôf yn rhyfeddol! Medrai adrodd cerddi cyfan ar eu hyd yn rhwydd, a thrafod rhai o'r llyfrau Cymraeg oedd ganddo yn ei 'stafell! A'r hyn oedd yn braf oedd bod ei hiwmor yn britho'r sgwrsio.

Wrth i ni ymadael, byddai'n estyn ei law, yn gwasgu fy llaw yn dynn, ac yn dweud gyda gwên fawr ar ei wyneb "Os Mêts! Mêts!"

**Neville Hughes**

# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?



© Dr J. Elwyn Hughes

## 'Mor anodd ydyw deall ...'

Efallai y bydd rhai ohonoch yn cofio i mi sôn y tro d'wetha' am ddyn 'oedd mewn gwth o oedran ac wedi colli wyres fechan ym mlodau'i dyddiau' ac yna dyfynnu'r pennill pedair llinell yr oedd wedi'u sgwennu ar ei hôl. Wrth ddarllen y pennill hwnnw, bu Rhys Morgan Llwyd o Dal-y-Cae, Tregarth, yn ddigon craff i gofio iddo'i weld yn rhan o gerdd yn cynnwys chwech o benillion wyth llinell yr un. A dw i'n ddiolchgar iawn i Rhys am fy ngoleuo ynghylch gwir awdur y pennill bach hwnnw a'r ffeithiau cywir y tu ôl i'r hanes. Wrth ddarllen pedair llinell gyntaf y pedwerydd pennill, efallai y sylwch ar y mân wahaniaethau o gymharu â'r llinellau a ddysgais i ar fy nghof flynyddoedd yn ôl, ac a ddyfynais yn *Llais Ogwan* y mis d'wetha'.

Cyhoeddwyd y gerdd wreiddiol ar daflen brintiedig y cefais gopi ohoni gan Rhys. Ar frig y daflen honno, roedd 'I Annwyl Gofio Owen' ac o dan y pennawd hwnnw, cawn wybod pwy oedd 'Owen':

'Owen Evans Jones, annwyl blentyn William a Maggie Jones, Tan-y-coed Terrace, Llanrug, yr hwn a fu farw Tachwedd 7fed, 1913, ac a gladdwyd Tachwedd 11eg, 1913, ym mynwent Llanrug, yn bedair blwydd oed.'

Yna, daw'r gerdd, dan y teil 'Hiraethgan ei Dad':

Mawr hiraeth am fy mhlentyn
Sydd heddiw'n llenwi 'mron, –
Hiraethu am na welaf
Byth mwy ei wyneb llon;
Mawr hiraeth gronna'm dagrau –
Rhyw hiraeth mud a phrudd;
Dwys hiraeth leinw 'nghalon,
Hiraethaf nos a dydd.

Hiraethaf am y cariad
Groesawai bawb yn llon;
Hiraethu am fynwesu
Fy mhlentyn ar fy mron;
Hiraethu am ei gusan,
Oedd felys fel y gwin,
Hiraethu nad yw heno
Yn chwarae ar fy nglin.

Rwy'n cofio ei fyrion eiriau,
Deallwn hwynt i gyd;
A chofiaf fel y gwenai
Tra suwn uwch ei grud.
Hir gofiaf am ei gystudd,
Ac am ei olaf wedd,
A chofiaf ddydd ei briddo,
A'r blodau ar ei fedd.

I'r môr dychwela'r dyfroedd –
Dychwela'r llong o'r lli;
A daw y gog i ganu,
Ond p'le mae 'mhlentyn i?
Dychwela'r plant o'r ysgol,
Dychwela'r tad o'r gwaith,
Ond Owen bach ni ddychwel
O dragwyddoldeb maith.

Mor anodd ydyw deall
Rhagluniaeth ddoeth fy Nuw,
Yn arbed pren sy'n crino,
A thorri'r blodyn byw;
Fe wywodd yn ei degwch,
Gadawodd fyd y poen;
Ond heddiw tyf yn wynnach
Trwy waith yr addfwyn Oen.

Dychmygaf 'nawr ei weled
Draw, draw, tu hwnt i'r llen,
A thelyn yn ei ddwylaw,
A choron ar ei ben.
Fe hoffwn gael ehedeg
I'w gwmni uwch pob clwy';
Ond d'ewyllys Di a wneler,
Ac ymdawelaf mwy.

W. J.

Bellach, diolch i Rhys, does dim rhaid honni bod awdur y gerdd yn 'anhysbys' gan y gwyddom ei enw ac nid yn unig hynny ond ei fod yn daid i Rhys Llwyd. Meddai Rhys, 'Roedd William Jones (1881-1955) yn frodor o'r Waunfawr ond yn Llanrug y cododd deulu ac ym mynwent Eglwys Llanrug y mae ei garreg fedd ynghyd â dau o'i blant.'

## Marchnad Ogwen

Chwithdod! Dim Marchnad eto mis Mai! Ond mae'n rhaid cadw at y drefn a'r peth pwysicaf o ddigon yn ystod y dyddiau dyrys yma yw bod yn ddiogel. Nid yw'n argoeli'n dda at Farchnad mis Mehefin ar hyn o bryd ychwaith. Yn sicr, ni fyddwn yn ein pabell ar gae Sioe Dyffryn Ogwen gan nad ydi'r Sioe yn digwydd eleni. Bydd gwybodaeth am ein bwriadau ar ein gwefan a facebook.




OND, mae posib cadw golwg ar hynt a helynt un o Stondinwyr Marchnad Ogwen yn ystod y cloi. Mae Iestyn Owen-Hopkins o Stondin 'Ogla' yn un o arweinwyr 'Ffit Cymru' sydd ar S4C ar nos Fawrth. Rhaid edmygu Iestyn am ei chwilfrydedd a'i ymrwymiad i'r fenter. Da iawn chdi Iestyn. 'Rydan ni yn falch iawn ohonot ym Marchnad Ogwen - heb anghofio cefnogaeth amlwg Emyr wrth gwrs. Dal ati a phob dymuniad da.

Cadwch y ddiogel, a gobeithiwn eich gweld cyn hir.

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L. Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR
YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853


**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon
CYMORTHFEYDD
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon
**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

MODURON PANDY Cyf.
MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio
01248 600619
moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk
Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY
UNIPART CAR CARE CENTRE


Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen
Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365
Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523
Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092
Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140
@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

# Cwis

## Adnabod Bro Llais Ogwan

Mae llythyren gyntaf pob ateb yn cael ei roi i chi, ond mae rhai o'r atebion yn cynnwys mwy nag un gair.


A: Hen gapel Bethesda
B: Arwyddair Ysgol Dyffryn Ogwen
C: Adeilad hanesyddol ger Talybont â chysylltiad gyda John Iorc
CH: Cyn-gapel yn Sling
D: Mae gan hwn Garnedd
E: Cynhelir ym mis Tachwedd
F: Aelod o Gôr Meibion y Penrhyn a welwyd ar Pobol y Chwarel
FF: Afon a modurdy
G: Seibiant ar y stryd
H: Rhwng Pont Coetmor a Phendinas
I: Ysgolhaig Prifysgol Rhydychen
J: Cymwynaswr o Rhiwlas fu farw eleni
L: 9Bach
LL: Santes
M: Chips gan Blodeuwedd a Gwydion
N: Hogia Llandygai
O: Arweinydd Côr Meibion y Penrhyn
P: Hen ddymp sbwriel
R: Mae na uchaf, canol ac isaf ym Mhentir
RH: Rhan o Bentir
S: Lleuwen a Manon
T: Fasa na ddim A5 heb hwn!
U: Caradog Prichard
W: Bardd y defaid anystywallt

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 298763

# Côr y Penrhyn gan Derfel Roberts

Yn y rhifyn diwetha' cafwyd cyfle i edrych yn ôl dros lwyddiannau'r côr dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r enw da a wnaeth y côr iddo'i hun wedi cerdded ledled y byd.

**Llwyddiant yn gyfarwydd i Gôr y Penrhyn.**
Dydy llwyddiant a Chôr y Penrhyn ddim yn beth newydd na dieithr oherwydd y mis hwn edrychwn ar hanes y côr ym mlynyddoedd y 70au pan ddechreuodd colofn, mwy neu lai rheolaidd, ymddangos yn Llais Ogwan. Ymddangosodd y golofn gyntaf am y côr ar dudalennau'r Llais ym Mis Chwefror 1975. Er mai fi oedd yn golygu Llais Ogwan rhwng 1974 ac 1982, dydw i ddim yn cofio pwy'n union oedd yn ysgrifennu colofn y côr ar y pryd a does dim cofnod yn Llais Ogwan yn nodi hynny. Mae'n bur debyg mai'r diweddar Caeron Roberts, Tregarth ac ysgrifennydd y côr ar y pryd, oedd yn gyfrifol amdani. Byddai hynny'n egluro sut mae cofnod mor fanwl o lwyddiannau'r côr yn ymddangos yn y golofn gyntaf. Roedd Caeron yn enwog am fanylder a threfn ei gofnodion a bu wrthi'n ddygn a chydwybodol am flynyddoedd yn cyflawni swydd yr ysgrifennydd.



Y COR


CÔR MEIBION Y PENRHYN

Yn ystod y tri degau 'roedd bri mawr ar eisteddfodau mewn gwahanol gapelau ym Methesda a'r cylch a chystadlu brwd rhwng partion neu gorau yn cynrychioli gwahanol bonciau yn chwarel y Penrhyn. Yn y flwyddyn 1934 bu cystadleuaeth felly yng nghapel Llanllechid ac yn ystod ei feirniadaeth dywedodd y beirniad ei bod yn gywilydd o beth na fuasai'r gwahanol gorau oedd yn cystadlu yn dod at ei gilydd i ffurfio un cor mawr. Gweithredwyd ar yr awgrymu ac yn nechrau 1935 daeth Cor Meibion y Penrhyn i fodolaeth.

YR AELODAU

Chwarelwyr oedd yr aelodau i gyd ar y dechrau ond erbyn heddiw nid oes ond pedwar chwarelwr yn y Cor. Mae'n debyg mai y rheswm am hyn yw y dirwasgiad sydd wedi bod yn y chwarel ac yn awr daw yr aelodau o amryw alwedigaethau sef: athrawon, adeiladydd, swyddog llywodraeth lleol, ffarmwr, gweithiwr ffatri ac felly ymlaen. 'Roedd bron yr holl aelodau yn byw ym Methesda a'r cylch yr adeg honno ond yn awr dont o lawer lle tu allan i'r cylch, sef Aber, Llanfairfechan, Deiniolen, Carmel, Bangor a chyn belled a Llithfaen. Mae pump aelod o'r Cor gwreiddiol yn dal gyda ni sef Hugh J. Owen, Bangor, Gwilym Jones, Tregarth, Idwal Griffith, Mynydd Llandegai, L. hughes, Bethesda ag Alun Williams, Rhiwlas, y pump wedi dangos sel a ffyddlondeb am ddeugain mlynedd.

ARWEINYDDION



Williams, Rhiwlas, y pump wedi dangos sel a ffyddlondeb am ddeugain mlynedd.

ARWEINYDDION

Yr Arweinydd cyntaf oedd y diweddar Mr. David Jones, Rachub a phenderfynwyd cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon yn 1935. Enillwyd y wobr gyntaf a dyna ddechrau gwych i'r Côr. Yn ystod y cyfnod hwn daeth y cerddor adnabyddus Mrs. Ceridwen Lloyd Davies i ddysgu ac ymarfer y Cór ac yn feistres galed iawn meddai'r bechgyn. Gymaint oedd y brwdfrydedd fel yr oedd rhestr hir o enwau yn disgwyl i ymuno â'r Cór ac yn gorfod disgwyl am flwyddyn neu ragor cyn cael gwahoddiad - yna prawf llym cyn eu cadarnhau i ymuno. Ymddiswyddodd Mr. David Jones yn 1938 a dewiswyd y diweddar Mr. Ffrancon Thomas, cyfeilydd y Cór ar y pryd, yn olynydd. Bu llwyddiant anghyffredin ar waith y Cor o dan ei arweinyddiaeth hir a dyma rai o'i brif fuddugoliaethau:

Yr Eisteddfod Genedlaethol dair gwaith yn olynol sef:
1947, Bae Colwyn: 1948 Penybont ar Ogwr: 1949, Dolgellau.
Eisteddfod Lewis's, Lerpwl bedair gwaith gyda gwobr o £100 a chwpan arian.
Eisteddfod Butlins, Pwllheli bump gwaith gyda gwobr o £100 a chwpan arian.
Eisteddfod Mon chwe gwaith yn olynol.
Eisteddfod Dyffryn Conwy chwe gwaith yn olynol.

Wrth gwrs, roedd y Cór yn colli ambell

**Colofn gyntaf y côr yn Llais Ogwan**
Isod, dangoswn gopi o'r golofn gyntaf fel yr ymddangosodd yn Llais Ogwan. Maddeuwch ansawdd amaturaidd y golofn a'r copi hwn ohoni ond gobeithio bod modd i chi ei darllen yn weddol ddidrafferth.

# Cymeriadau'r Côr

**Cyfres yw hon sy'n holi aelodau o Gôr y Penrhyn ynghylch eu cefndiroedd a'u diddordebau ac ati. Cymeriad y mis hwn ydy Emyr Jones o Lanrug a fu'n gweithio fel plymar am flynyddoedd cyn ymddeol.**



**Be' ydy dy enw llawn?** Emyr Jones
**Oed?** Newydd ddathlu 73 oed.
**Gwaith** Plymar wedi ymddeol
**Lle wyt ti'n byw?** Yng Nglanffynnon, Llanrug.
**Un o le wyt ti'n wreiddiol?** Un o Frynrefail yn wreiddiol. Ddim wedi symud ymhell o fy hen gartref.
**Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau?** Gonest, hwyliog a chyfeillgar.
**Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr** Mi wnes i ymuno â'r côr yn ôl yn 1992. 18 mlynedd wedi mynd yn gyflym iawn.
**Pa lais wyt ti?** Dwi'n canu efo'r lleisiau bariton. Yr adran honno ydy'r adran gryfaf o ran niferoedd yn y côr ar hyn o bryd.
**Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn?** Mi wnes i chwarae golff efo Dewi Jones (DWJ) yng nghystadleuaeth golf y côr yn 1992 a gyda'r nos mi ymunais â chriw o hogia i ganu rownd y piano yn y clwb. Dyna fi wedi fy machu.
**Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr?** 'Morte Criste'. Emyn Saesneg enwog Isaac Watts o'r 18fed ganrif.
**Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores?** Mae gen i fwy nag un ffefryn a'r ddau ffefryn penna' ydy Bryn Terfel a Katherine Jenkins. Lleisiau anhygoel.
**Beth ydy dy farn di am ganu pop?** Iawn yn ei le ac mae'n apelio at yr ifanc yn ein plith. Mae gynnon ni sawl aelod ifanc yn y côr ar hyn o bryd.
**Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r côr?** Dwi'n cofio dwy daith i America. Es i ar deithiau i Boston, a Granville a Vermont ac i Chicago i ddathlu canmlwyddiant ymweliad cyntaf y côr â Ffair Fawr y Byd yn 1893.
**Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr?** Dwi'n mwynhau garddio a rôn i'n chwarae golff tan i mi orfod cael pen-glin a chlun newydd.
**Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud?** Mi faswn i wrth fy modd petai'r côr yn trefnu taith arall i'r Ŵyl Ban-Geltaidd yn Iwerddon. Roedd yr ymweliadau a gafwyd yno yn rhai pleserus a hwyliog dros ben ac mi gurodd y côr yno ar fwy nag un achlysur.

# gair neu ddau

**John Pritchard**

**TAENU'R NEGES AR LED**

Wn i ddim a ddylwn gydnabod hyn, ond rwyf yn dawel bach wedi blino ar y siarad telynegol am ddyddiau da tair oedfa'r Sul. Nid fy mod yn rhy ifanc i gofio peth felly. Dyna oedd y drefn pan oeddwn yn blentyn. A dyna fu'r patrwm yn fy ngofalaeth gyntaf ym Mhen Llŷn ac yn fy ngofalaeth bresennol am flynyddoedd. Mae rhai eglwysi'n dal i gynnal dwy oedfa ac Ysgol Sul, ond bod mwyafrif yr ysgolion Sul wedi symud i'r bore. Ond pam fyddai gweinidog o bawb yn cydnabod ei fod wedi blino clywed am ddyddiau'r tair oedfa? Mae mwy nag un rheswm.

Yn un peth, clywais lawer yn cyfeirio'n hiraethus at yr hen ddyddiau er nad oeddent erbyn hynny'n mynychu'r un oedfa. A fedrai'r hen ddyddiau fod mor llewyrchus wedi'r cyfan? Cofiwch chi, roedd rhai'n mynnu mai oherwydd yr orfodaeth i fod yn yr holl oedfaon y bu iddynt gilio o'r capel.

Rheswm arall yw bod cymaint o'r sôn am oes y tair oedfa'n feirniadaeth ar gapeli ac eglwysi cyfnodau mwy diweddar, fel petai un oedfa'n llai yn brawf fod credinwyr mwy diweddar yn llai duwiol na'u teidiau a'u neiniau. Diolch am hynny, cefais (ac rwy'n dal i gael) y fraint o adnabod a chydaddoli â phobl dduwiol a ffyddlon.

Ond y prif reswm yw'r gred sydd gen i mai ychydig mewn gwirionedd oedd y bobl a fynychai dair oedfa p'run bynnag. Gwir fod tair oedfa, a bod rhai ym mhob un ohonynt. Ond onid i un oedfa neu i un oedfa ac Ysgol Sul y byddai'r mwyafrif yn mynd? Yn sicr, gyda rhai eithriadau prin, ychydig o bobl a welais i'n dod i ddwy oedfa ac Ysgol Sul yn gyson. Yn fy mhrofiad i 'pobl un oedfa' fu mwyafrif aelodau ein heglwysi ers talwm iawn. Do, bu'r eglwysi'n cynnal dwy oedfa, ond ychydig o'r ffyddloniaid fu'n mynychu'r ddwy. Dewis y naill neu'r llall a wnaeth y mwyafrif.

Maddeuwch y rhefru. Nid beirniadu oedd fy mwriad. Ofni'r wyf fod rhamantu ynghylch yr hen ddyddiau'n gwneud i bobl ddibrisio'r cyfan a fu ers y dyddiau hynny.

Ond dowch i mi droi at y peth cadarnhaol y bwriadwn ei ddweud cyn dechrau rhefru! Ers y Clo Mewn ddiwedd mis Mawrth, mae nifer cynyddol o eglwysi'n gosod oedfaon a phregethau a myfyrdodau ar y We. Ac o'r herwydd mae'r Efengyl a'r Beibl yn fwy amlwg a 'chyhoeddus' yng Nghymru nag a fuont ers talwm iawn. Rhaid cyfaddef ein bod, i raddau helaeth, wedi cadw'r newyddion da am Iesu Grist o fewn pedair wal ein capeli a'n heglwysi ers blynyddoedd. Ond ers i ni fethu â chynnal ein hoedfaon fe'n gorfodwyd i ganfod ffyrdd eraill o addoli a chyhoeddi'r Efengyl. A thrwy gyfrwng y We mae'r Efengyl o fewn clyw pobl na chlywsant air amdani ers blynyddoedd, os nad erioed o'r blaen.

Maddeuwch hefyd yr hysbysebu. Os dymunwch wneud hynny, cewch wrando ar bregeth gennyf fi ar Youtube. Chwiliwch am sianel 'Capel Tanycoed' unrhyw bryd.

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

**Colled**

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mary Robinson, Fern Cottage, a fu farw ym Mhlas Garnedd, Llanberis, bythefnos cyn ei phen-blwydd yn 95. Bydd yn chwith hebddi yn y pentref. 'Roedd yn gymeriad unigryw.

**Clapio**

Mae'r pentrefwyr yn cyfarfod yn y sgwâr ar Nos Iau i gymeradwyo'r Gwasanaeth Iechyd, ac fe benderfynwyd dechrau casgliad i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd. Mae Iona Jones, 'Dyma Fo', Rhif 16, yn fodlon derbyn unrhyw gyfraniad gan ei bod yn aelod o'r pwyllgor.

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**

**Llongyfarchiadau**

Ordeiniwyd Martyn Lewis, ein cyn-ddarllenydd lleyg, gan yr Esgob Andy ar Sul y Pasg yng nghapel Tŷ'r Esgob ym Mangor. Llongyfarchiadau i Martyn a phob bendith.

**Cydymdeimlad**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Brenda Hughes, Arafa Don, Bethesda yn ei phrofedigaeth o golli Gareth ei brawd. Mae Brenda, sy'n aelod o gynulleidfa'r Gelli, Tregarth, yn un o gyfeillion mwyaf teyrngar St Tegai.

**Gwasanaethau Sant Tegai Llandygai**

Yn ystod y cyfnod anodd yma mae aelodau'r gynulleidfa yn cadw mewn cysylltiad clos drwy e-bost neu dros y ffôn ac yn ymuno bob dydd Sul am 10.15 mewn cyd-weddi ddistaw yn y tŷ gydag eglwysi eraill Bro Ogwen. Croeso i chi oleuo cannwyll, darllen darn o'r Beibl neu fyfyrdod, a dweud gweddi gyda ni.

STEPHEN JONES
TREFNWR ANGLADDAU CYF
PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS
BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

Contractwyr Trydanol
Jones & Whitehead Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk
ECA
CHAS

# CHWILAIR

## Llyfrgell Cenedlaethol Cymru

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U | I |
| S | V | S | H | E | I | M | G | L | L | Y | F | R | A | U | V | H | M | D | W |
| H | U | A | I | F | F | A | R | G | O | T | O | F | F | U | U | Z | D | M | X |
| A | V | A | D | D | F | F | I | L | M | N | A | P | A | N | U | D | Q | U | S |
| R | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H | C | U | N | M | Y | W | N | O | Y |
| C | R | I | A | S | Z | U | T | F | D | X | U | A | P | E | W | R | H | C | Q |
| H | H | W | E | H | O | Y | E | E | G | E | W | O | F | M | H | E | P | T | T |
| I | D | C | B | B | C | U | U | J | P | U | L | S | U | A | T | M | I | V | V |
| F | D | D | C | B | B | F | R | F | N | O | O | G | A | B | J | V | I | I | R |
| A | F | R | Y | X | I | M | H | C | T | G | T | O | F | E | S | K | O | P | W |
| U | R | L | C | W | M | K | H | C | N | B | O | R | I | R | C | X | V | R | Y |
| H | S | T | E | M | E | W | R | A | E | F | Y | J | R | Y | D | Z | H | B | C |
| W | O | U | S | C | E | N | D | C | R | A | I | X | G | S | N | I | L | X | J |
| J | M | B | A | C | H | D | U | W | T | E | X | M | S | T | D | X | K | F | U |
| P | C | Q | H | R | R | T | Y | A | O | I | U | L | Y | W | F | E | R | Z | Q |
| R | O | C | T | A | O | D | I | G | R | W | A | S | W | Y | L | Z | E | B | E |
| A | J | K | J | C | L | S | N | A | L | U | I | R | A | T | V | O | G | J | P |
| W | P | G | S | O | W | J | Y | J | W | Q | P | U | L | H | L | F | S | V | T |
| X | E | U | G | H | S | L | Z | R | E | G | A | A | L | A | F | X | I | W | T |
| Z | H | K | V | A | G | B | N | K | T | A | M | D | P | S | I | K | O | G | D |

Yn y chwilair hwn mae enw DEUDDEG PETH YN YMWNEUD Â LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. Fedrwch chi ganfod y gweddill? (Mae Ll, Ch, Dd, Th ayb yn <u>**un**</u> llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair, dangosir hwy fel dwy lythyren ar wahân). NID OES ANGEN ANFON ATEBION AR GYFER Y CHWILAIR - I'CH DIDDORI YN UNIG Y MAE Y TRO HWN!


Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat*
*a Bws Mini*



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk



**SIOP OGWEN**

33 Stryd Fawr, Bethesda

Peidiwch anghofio am Siop Ogwen. Galwch draw!

Anrhegion a chrefftau lleol, Cardiau, Llyfrau, Coffi Poblado, Jam Cartra, CDs, Lluniau, Gemwaith, Sebon, Canhwyllau, Dillad, Golwg, Y Cymro, Llais Ogwan a llawer mwy!

Cewch archebu llyfrau Cyngor Llyfrau Cymru trwy'r siop, neu gylchgronau (e.e. Barn, Mellten, Bore Da, Y Traethodydd, O'r Pedwar Gwynt ayyb) a CDs hefyd.

Ar agor ddydd Mercher (10-2), Dydd Iau /Gwener (10-5) a dydd Sadwrn (10-3).

siop@ogwen.org

**01248 208 485**


# Gwirfoddolwyr Siop Ogwen

**Enw** Sion White
**Oed** 17
**Lle wyt ti'n byw?**
Bethesda

**Diddordebau?**
Dwi'n hoff o wylio ffilmiau Marvel a fy hoff raglen deledu ydi Doctor Who. Mae darllen llyfrau hefyd yn rhywbeth dwi'n fwynhau ei wneud. Dwi'n darllen llyfrau Superman a Spiderman.

**Ers pa mor hir ydych chi'n gwirfoddoli yn y siop?** Tua blwyddyn



**Pam wyt ti yn hoffi gwirfoddoli?**
Mae'n rhoi y cyfle i mi allu siarad hefo pobl newydd sydd yn byw ym Methesda a hefyd pobl sy'n dod i ymweld â'r ardal. Dwi'n clywed llawer o hanesion difyr. Gan fy mod i'n hoffi darllen dwi'n cael cyfle i wneud hyn yn y Siop pan mae hi'n ddistaw.

**Pam wnest ti gychwyn gwirfoddoli?**
Mi wnes i gychwyn gyda phrofiad gwaith yn Partneriaeth Ogwen a dw i'n dal i wirfoddoli yn Siop Ogwen rwan. Dwi fel arfer yn y Siop ar bnawn Dydd Iau.

### Newyddion Siop Ogwen

Er fod y siop wedi cau rydym wedi bod yn gweithio'n galed ar ddatblygu'r siop. Y newyddion mawr yw y bydd Siop Ogwen yn gwerthu ein crefftau ar blatfform Cadwyn Ogwen sy'n rhoi cyfle i bobl yr ardal brynu nwyddau lleol a'u cael wedi eu danfon i'w cartrefi. Y math o nwyddau fydd y siop yn ei werthu ar Cadwyn Ogwen fydd cynnyrch gofal croen a gwallt. Bydd crefftau ein artistiad lleol hefyd ar gael.

Rydym hefyd yn hapus i dderbyn archebion llyfrau a threfnu i'w danfon i gwsmeriaid lleol. Fel y llynedd, byddwn yn cadw stoc o lyfrau cystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn yn y siop. Bydd Rhestr Fer Llyfr y Flwyddyn 2020 yn cael ei gyhoeddi **Dydd Llun 11 Mai a'r** Seremoni Wobrwyo yn digwydd **Nos Iau 25 Mehefin** yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Rydym hefyd yn gallu archebu llyfrau Gwobr Tir Na Nog sy'n gwobrwyo goreuon y byd llenyddol Cymraeg i blant. Byddwn yn rhyddau gwybodaeth am y llyfrau sydd ar y rhestr fer ar gyfryngau cymdeithasol Siop Ogwen.

## Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc,
Llanllechid, Bangor, LL57 3RS.
01248 605582 a 07887624459
henbarc13@gmail.com

**Cydymdeimlo**
Bu'n fis o alar yn yr ardal y mis hwn, gyda llawer o deuluoedd yn colli anwyliaid. Cydymdeimlwn gyda phob teulu, a hyderwn y byddwn yn gallu talu teyrnged llawnach i bawb ohonynt yn y dyfodol.

Cydymdeimlwn â Theulu Freeman, Tyddyn Canol yn dilyn colli Charles yn ddiweddar. Yn yr un modd, cofiwn at Deulu Owen, Ty'n Ffridd wedi marwolaeth Annette. Yn ogystal, cydymdeimlwn â'r Teulu Roberts, Rhes Stanley wedi marwolaeth Margaret, gynt o'r Hen Ysgol, a deallwn fod Teulu Trow, Maes Bleddyn, hefyd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â theulu Megan Lloyd Fallows (Parry gynt) a fu farw yn Lerpwl yn ddiweddar. 'Roedd hi'n byw yn Lerpwl am flynyddoedd maith, ond yn wreiddiol o Ffordd Llanllechid, Rachub ac yn chwaer i'r diweddar Emrys Lloyd Parry.

Trist yw cofnodi marwolaeth Medi Williams, Ystad Coetmor a fyddai'n anfon newyddion Clwb Henoed Rachub i Llais Ogwan. Anfonwn ein cofion at y teulu. Yr un yw ein cofion hefyd at Gillian a Dafydd Griffiths, Foel Ogwen wedi marwolaeth Lliwen yn ddiweddar.

**Gwaeledd**
Anfonwn ein dymuniadau gorau at nifer sydd wedi dioddef problemau iechyd yn ddiweddar, gan gynnwys Christine Jones, Yr Hen Ysgol ac Amanda Griffiths, Stryd Britannia.

**Effaith y Coronafirws**
Gresyn bod y gwaith gwella tai cymdeithasol wedi'i ohirio oherwydd problemau'r feirws. Ond, rhaid diolch a chanmol perchenogion Siop Rachub am aros ar agor a gwasanaethu'r ardal yn y cyfnod anodd hwn.

# Meddai Syr Ifor (2)

Yn ei gyfrol *Enwau Lleoedd*, mae Syr Ifor Williams yn trafod yn ddiddorol nifer o enwau cyffredin dan benawdau dyffryn a phant ac afon a ffrwd. Yn dilyn y nodiadau yn rhifyn Ebrill ar darddiad rhai enwau lleoedd yn Nyffryn Ogwen a'r cyffiniau, dyma ragor o sylwadau'r Athro o Bendinas.

**Dyffryn** – y gair gwreiddiol oedd *Dyffrynt*, gyda'r cymal cyntaf *dyf* yn golygu *dŵr* a'r ail gymal *hynt* yn air cyffredin am ffordd neu lwybr. Felly ystyr *dyffryn* yw llwybr y dŵr.

**Nant Ffrancon** – mae'r enw yn ymddangos gyntaf yn Llyfr Taliesin yn 1275. Roedd *ffranc* yn enw ar filwr cyflogedig a fyddai'n rhan o fyddin pennaeth Cymreig yn y 9fed ganrif. Yr enw lluosog oedd *Ffrancon* ac roeddynt wedi eu recriwtio ar y cyfandir. Yr un *ffranc* sy'n ymddangos yn enw Ffrainc a'r Ffrancwyr. Fodd bynnag, mae hefyd ail esboniad wedi ei gynnig yn ogystal. Yn y llyfr difyr *Yn Ei Elfen* gan Bedwyr Lewis Jones, yntau gynt yn Athro fel Syr Ifor yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor, cyfeirir at esboniad gan ysgolhaig o Brifysgol Navarre yn Sbaen, Andrew Breeze. Eglurodd bod y gair *franca* mewn hen Saesneg yn golygu gwaywffon, a'i fod wedi ei fenthyca i'r Gymraeg. Mewn cerdd gynnar o tua 900 sy'n disgrifio hen filwr a orchfygwyd mewn brwydr, adroddir y llinell 'Mi a'm ffranc o amgylch ein callor' sydd yn darlunio'r gŵr yn unig, ei fyddin ar chwâl, ac ond ei waywffon a'i grochan yn gymdeithion iddo bellach. Yn ôl Breeze, felly, ystyr Nant Ffrancon yw 'dyffryn y gwaywffyn'.

Ond tybed nad y ffranc a gŵr y waywffon oedd y milwr cyntaf i gofadael ei enw yn Nant Ffrancon? Yn y ganrif gyntaf oed Crist brwydrodd Caradog yn erbyn goresgyniad Prydain gan fyddinoedd y Rhufeiniaid. Yn ystod y cyfnod rhwng blynyddoedd 47 a 50, arweiniodd Caradog lwyth y Silwriaid yn ne Cymru mewn brwydrau yn erbyn byddin y rhaglaw Publius Ostorius Scapula cyn symud yn ddiweddarach i'r canolbarth a'r gogledd yn arweinydd llwyth yr Ordoficiaid. Gorchfygwyd ef mewn brwydr mewn man nas adnabyddir rywle ar y ffin ym Mhowys yn y flwyddyn 50, ac yn dilyn ei orchfygiad cludwyd ef i Rufain yn garcharor. Tybed na fu ef ar un amser yn ymwelydd â Nant Ffrancon ac y clodforwyd ei enw yn fferm Maes Caradog?

**Cwm** – enw sy'n golygu cafn neu ddysgl ac yn air hynafol ei dras. Mae Cwm Bual (ych) a Chwm Graeanog yn disgrifio i'r dim y ffurf cafn sydd i'r cymoedd crog sydd uwchlaw Nant Ffrancon ar yr ochr orllewinol.

**Ogwan** – Yn y 12fed ganrif canodd y bardd Gwalchmai i *ddyfr Ogfanw a Chegin* sef dwy o afonydd ein bro – y *dyfr* yn lluosog o *dwfr* megis sy'n aros yn enw'r Ddyfrdwy. Yn achos *Ogfanw* troes i ddechrau yn *Ogfan* ac yna drwy newid yr *f* i *w* cafwyd *Ogwan* yn unol â thafodiaith Arfon. Llygriad diweddarach oedd troi yr *wan* yn *wen*. Ond beth yw ystyr *Ogfanw*? Yn ôl Syr Ifor, efallai mai enw duwies sydd yma, ond cyfeiria at ddwy elfen yn yr enw – mae'r elfen gyntaf *og* yn tarddu o *awg* sy'n golygu llym, cyflym, a'r ail elfen *banw* yn enw ar borchell. Felly 'afon yn llifo'n gyflym fel mochyn bach' yw ystyr Ogwen.

**Llafar** – sŵn llif y dŵr sydd efallai yn rhoddi enw i'r afon, fel petai'n llefaru. Ond ffurf gynnar yr enw gan y Celtiaid ar gyfandir Ewrop oedd *Labara,* ac erys yr enw Labar ar ddwy afon a red i'r Donau (y Danube) yng nghanolbarth Ewrop. Ac enw y dduwies Geltaidd *Don* a roddodd ei henw i'r Donau ac yn Lloegr i afon y Don a thref Doncaster yn swydd Efrog. A'r *Don* hon oedd mam Gwydion ac Arianrhod yn chwedl Blodeuwedd yn y Mabinogi.

**Ffynonellau**:
Ifor Williams, 1962. *Enwau Lleoedd*, Gwasg y Brython, Lerpwl.
Bedwyr Lewis Jones, 1992. *Yn ei Elfen*, Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst.
T. G .E. Powell, 1958. *The Celts*, Gwasg Thames and Hudson, Llundain.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
600763 neu 07708 008051
GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS CYF
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu

18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
a Swyddfa Bost
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

**Arfbais Douglas Arms**
Cwrw Casgen - Gardd Gwrw
Noson Cwis Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
ORIAU AGOR
Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 602537



**DAFYDD CADWALADR**
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed
01248 605207

**BARBWR OGWEN**
Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853


# Clust i wrando...

**"Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Rydyn ni yma i chi a gallwn eich helpu a'ch cefnogi."**

Mae sefydliadau sy'n gweithio i ddiogelu ac i amddiffyn pobl sy'n cael eu cam-drin neu sy'n dioddef troseddau wedi dod at ei gilydd i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i'w cadw'n ddiogel ac i'w hamddiffyn yn ystod y cyfnod anodd hwn. Ac mae ganddynt neges syml i bobl hŷn yng Nghymru a allai fod mewn perygl: Dydych chi ddim ar eich pen eich hun. Maent yn ceisio sicrhau bod pobl yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt ynghylch lle i droi am gymorth, a'u bod yn gwybod bod gwasanaethau cymorth yn dal ar gael o hyd er gwaethaf y tarfu presennol. Maent hefyd yn gweithio i godi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd o'r rhan y gallwn i gyd ei chwarae o ran helpu i amddiffyn pobl hŷn.

Dywedodd Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:

"Er ein bod wedi gweld y gorau o'n cymunedau dros yr wythnosau diwethaf, gyda chymaint o waith yn cael ei wneud i helpu ac i gefnogi pobl hŷn, mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod bod yr wythnosau diwethaf wedi bod yn eithriadol o anodd i nifer o bobl. Bydd llawer o bobl hŷn wedi teimlo'n ofnus ac ar eu pen eu hunain.

"Mae yna bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain sy'n gorfod hunanynysu, sy'n golygu eu bod yn fwy unig, yn ynysu'n gymdeithasol a gallai eu llesiant meddwl ddioddef. Rydyn ni'n poeni bod pobl hŷn yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gefnogaeth, diogelwch a gwasanaethau allweddol eraill neu nad ydynt yn sylweddoli bod cymorth ar gael iddynt.

"Mae llinell gymorth Hourglass Cymru ar gael i unrhyw un sy'n poeni am y risg uwch o gam-drin ac esgeulustod i bobl hŷn yn ystod y cyfnod heriol hwn, boed y cam-drin hwnnw'n cael ei wneud gan anwyliaid, gweithwyr proffesiynol neu bobl ddieithr."

Dywedodd llefarydd ar ran Heddluoedd Cymru:

"Dros y cyfnod anodd hwn rydyn ni'n cydnabod ac yn deall y gallai pobl hŷn ac agored i niwed deimlo eu bod ar eu pen eu hunain, teimlo ofn a theimlo eu bod allan o'n cyrraedd ni. Mae ein swyddogion wedi bod allan yn ein cymunedau yn gwneud eu gorau glas i sicrhau bod pawb yn teimlo'n ddiogel.

"Yn anffodus, hyd yn oed ar adegau fel hyn, bydd sgamwyr a throseddwyr eraill yn manteisio ar ein trigolion mwyaf agored i niwed.

"Ein neges yw nad ydych chi ar eich pen eich hun. Gyda'n gilydd rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod darpariaethau a mesurau ar waith i gefnogi ein cymuned gyfan."

Os oes angen cymorth a chefnogaeth ar unrhyw bobl hŷn, neu os oes unrhyw un yn poeni y gallai person hŷn fod mewn perygl, mae croeso i chi gysylltu ag Hourglass Cymru (Action on Elder Abuse Cymru o'r blaen) ar 0808 808 8141 (i gael help y tu allan i oriau swyddfa, dylai pobl gysylltu â'r Llinell Gymorth Di-ofn Fyw 24 awr ar 0808 80 10 800). Os oes risg o niwed difrifol ar fin digwydd, dylid cysylltu â'r heddlu yn ddi-oed drwy ffonio 999. Mae'r heddlu'n dal i ymateb i alwadau brys. Os oes angen help ar rywun ond nad oes modd iddyn nhw ddweud hynny, dylen nhw ffonio 999 ac wedyn 55.


BYSUS D. P. Owens RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000)*

# Pantri Pat

## Pryd ffres ac ysgafn ar ddiwrnod braf

***Cynhwysion***

8 owns o diwna mewn olew (mewn tun).
1 tun o ffa *flageolet*.
Sudd 1 lemwn.
Llawiad o fasil wedi ei dorri'n fân.
8 llwy fawr o olew olewydd.
Pupur a halen.
6 – 8 tomato wedi eu tafellu.

***Dull***

Dreiniwch y tiwna, a hefyd y ffa.
Torrwch y tiwna yn ofalus yn haenau tenau a'u cymysgu efo'r ffa.
Torrwch y tomatos yn dafellau.
Cymysgwch y basil, y sudd lemwn, yr olew olewydd a'r pupur a'r halen yn dda.
Wedyn, yn ofalus, rhag torri'r tiwna yn ormodol, tywalltwch y cwbl dros y cymysgedd.
Gosodwch o yn bentwr yng nghanol y plât (plât pasta fyddai orau), a threfnu'r tomata yn gylch o gwmpas ymyl y plât.



# Cerdded o gwmpas Y Felinheli i godi arian i Ysbyty Gwynedd



Mae aelod o Cyfeillion Ysbyty Gwynedd wedi cychwyn ymgyrch codi arian i Ysbyty Gwynedd.

Nod gwreiddiol Gwenda Hughes, sydd yn byw yn Y Felinheli, oedd cerdded 100 milltir yn lleol mewn mis efo Moli, y ci. Mae hyn bellach wedi codi i 200 milltir o fewn 6 wythnos!!

"Dwi wedi cael fy ysbrydoli gan Capten Tom Moore", medd Gwenda "ac wedi penderfynu codi arian yn lleol".

Mae Cyfeillion Ysbyty Gwynedd yn griw o wirfoddolwyr ymroddedig sydd yn codi arian er mwyn gallu prynu cyfarpar gwir angenrheidiol i Ysbyty Gwynedd. Sefydlwyd yr elusen yn 1969 a dathlwyd 50 mlynedd o godi arian yn 2019.

Prif weithgareddau codi'r arian y Cyfeillion yw eu Bwrdd Gwerthu ddwy waith yr wythnos yn Ysbyty Gwynedd, Byrddau Tombola a threfnu Sioeau Ffasiwn llwyddiannus, Boreau Coffi a Nosweithiau Elvis efo Wynne Roberts.

"Oherwydd Covid-19 mae ein gweithgarddau codi arian wedi stopio am y tro a dani yn colli incwm o oddeutu £250 yn wythnosol o ganlyniad i hyn", medd Gwenda. "Felly roeddwn yn meddwl be allwn i ei drefnu i godi arian at yr achos. A dyma fi yn cerdded o gwmpas fy milltir sgwar yn Y Felinheli, yn mwynhau'r awyr iach, yn darganfod llefydd newydd, a hyn oll i'n elusen"

Mae tudalen Crowdfunding Just Giving wedi ei chreu er mwyn derbyn rhoddion ar-lein https://www.justgiving.com/crowdfunding/gwenda-hughes-1

"Mae'r gefnogaeth dw i wedi'i dderbyn wedi bod yn anhygoel a hoffwn ddiolch o waelod calon i bawb sydd wedi cyfrannu yn barod. Mae dros £600 wedi ei gasglu rwan ac rydym wedi cerdded dros 80 milltir" medd Gwenda "felly dw i di penderfynu dwblu'r cerdded i 200 milltir, a gobeithio codi o leiaf £1,000 o fewn 6 wythnos."

Gweler diweddariad y cerdded ar dudalen Facebook yr elusen www.facebook.com/cyfeillionysbytygwynedd

Am unrhyw wybodaeth pellach ac i drefnu cyfraniadau all-lein gallwch gysylltu efo Gwenda drwy ebost y Cyfeillion, cyfeillionysbytygwynedd@gmail.com




C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

## Y Gerlan

**Caren Brown**, Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda, LL57 3ST.
☎ 01248 602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

**Linda Brown**, 1 Gwernydd, Gerlan, Bethesda, LL57 3TY. ☎ 01248 601526

**Croeso i Y Gerlan**
Croeso mawr i Bedwyr ac Emma i'w cartref newydd yn Ffordd Gerlan. Mae Bedwyr, sydd wedi ei fagu yn Nant Graen, wedi symud i hen gartref ei dad a'i nain yn y Gerlan. Gobeithio y bydd y ddau ohonoch yn hapus iawn yma.

**Pen-blwydd Arbennig**
Pen-blwydd hapus iawn i Amanda Davies ar ei phen-blwydd yn 50. Dwi'n siŵr bod na hen ddathlu wedi bod yn Tŷ Dŵr – gobeithio dy fod wedi mwynhau a chael dy sbwylio gan y teulu.

**Pen-blwydd arbennig a swydd newydd**
'Roedd gan Gethin Roberts Ffordd Gerlan ddau achos i ddathlu mis yma. Nid yn unig bod Gethin wedi cael ei ben-blwydd yn 21 oed, bu hefyd yn dathlu swydd newydd yn RAF Brize Norton yn Ne Lloegr. Pob dymuniad da iti yn dy swydd newydd Gethin – mae'n amlwg fod dy yrfa yn mynd o nerth i nerth a'r teulu'n falch iawn ohonot. Bydd y teulu a ffrindiau yn gweld dy golli'n siŵr.

**Pen-blwydd arbennig arall!**
Pen-blwydd hapus arbennig iawn i Carwyn Jones Stryd y Ffynnon yn 40 oed. Mae Carwyn yn adnabyddus i nifer o bobl fel "Y Dyn Gwyllt" ar S4C. Yn anffodus, fydd na ddim parti gwyllt i ddathlu ond gobeithio dy fod wedi mwynhau dy ddiwrnod arbennig!

**Colled**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Mair Jones (Mair Siop) a fu fawr ddiwedd mis Chwefror. Er bod y rhan fwyaf ohonom yn cofio Mair fel rhywun oedd yn byw ar y Stryd ac yn ddiweddarach ar Ffordd Bangor, un o'r Gerlan oedd hi'n wreiddiol ac yn falch iawn o hynny. 'Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys gyda John ei gŵr, a'i mab, Ian.

**Amser anodd i bawb**
Er ein bod yn mynd trwy un o'r amseroedd mwyaf dyrus yn ein profiad ar hyn o bryd, mae gweld cymdeithas yn dod at ei gilydd i helpu ei gilydd yn codi calon ac yn rhoi gobaith i ni gyd. Diolch i bawb am fod mor garedig a meddylgar efo'i gilydd. Mae mor hyfryd gweld yr enfysau o gwmpas y pentref ac yn ffenestri'r tai. Diolch bawb am roi 'chydig o oleuni a gobaith yn ein bywydau. Daw eto haul ar fryn ☺

Os oes unrhyw un angen cefnogaeth o gwbl yn ystod y cyfnod anodd yma boed yn sgwrs, siopa neu gymwynas o unrhyw fath, mae croeso i chi gysylltu gyda mi ar un o'r rhifau uchod, trwy e bost (carenelaine@hotmail.com) neu'r gwefannau cymdeithasol ac fe drefnaf eich bod yn cael yr help sydd ei angen arnoch.

Mae Caban Gerlan hefyd yn ceisio chwarae ei ran yn ystod yr amser anodd yma ac yn cynnig llety i weithwyr iechyd sydd ei angen. Os oes unrhyw un angen gwybodaeth pellach, mae croeso i chi gysylltu efo fi am fwy o wybodaeth.

Cadwch yn ddiogel bawb.

# Taith o Amgylch y Fro gydag Arwyn Oliver

**Taith 1 Y Felin Fawr a Llyn Coed y Parc**

Cychwyn ger Meddygfa'r Hen Orsaf a cherdded heibio i dai Lôn Sarnau, Ffatri G.L. Jones ac i gyfeiriad Pont Sarnau.

Croesi'r bont ac i fyny'r allt gyda'r Hen Ffelin ar y chwith.

Cyrraedd y lôn gefn ger tai Ffrancon View, a throi i'r chwith i gyfeiriad y Felin Fawr.

Croesi'r ffordd ymhen 200 metr ac i fyny drwy hen giat y felin, gan ddilyn llwybr beicio Lôn Las Ogwen.

Cerdded rhwng sied y trenau ar y chwith a'r Ffowndri ar y dde. Peidio mynd o dan y bont i gyfeiriad Pont y Tŵr ond, yn hytrach, mynd drwy ddrws bychan yn y wal sydd yn syth o'ch blaen.

Troi i'r dde ar ôl mynd drwy'r drws, ac yna i'r chwith ymhen rhyw 30 metr. Bydd Tai Stablau yn syth o'ch blaen.

Dilynwch y llwybr heibio i Lyn Coed Parc gan godi'n raddol i gyfeiriad Parc 'Rynys. Mae peth gwaith wedi ei wneud ar y llwybr yma'n ddiweddar.

Ar ôl cyrraedd llwybr arall ('Rynys-St Ann's) ewch i'r chwith gan ddilyn y llwybr sy'n dilyn afon Caledffrwd (Afon Rocar). Croesi Afon 'Rynys a chyrraedd y Bont Wen ger tŷ Yr Ocar.

Croesi'r bont ac i'r chwith i gyrraedd y lôn yng ngwaelod Allt Rocar.

Ewch ymlaen i lawr y ffordd gan basio heibio Llyn Coed Y Parc – fydd ar y chwith i chwi tro hwn.

Cyrraedd gwaith paent Little Green (Bradite gynt) a throi i'r chwith ar y lôn gefn.

Aiff y ffordd â chwi yn ôl i gyfeiriad Stad Ddiwydiannol Coed Y Parc ac at Lwybr Pont Sarnau. Dilyn hwn yn ôl i gyfeiriad Bethesda.
**Mwynhewch!!**





**Pellter:** Tua 2 filltir
**Amser:** Oddeutu awr hamddenol
**Offer:** Esgidiau cerdded addas gan fod rhannau o'r llwybr yn fwdlyd
**Math o daith:** Rhai gelltydd ond dim byd anodd.





# Yn yr Ardd



Mae'r haf ar ei ffordd! Ydi wir, a hynny er bod rhai o'n garddwyr hŷn wedi gweld barrug yn Ardudwy yn hwyr ym mis Mai yn y gorffennol. Fel mae bylbiau'r gwanwyn yn darfod mae'r borderi yn dechrau tyfu o ddifri. Gallwch ddechrau plannu hadau yn syth i'r ardd ac, o ganol y mis ymlaen, gallwch blannu'r blodau blwyddol. Gellir cymryd toriadau oddi ar goed meddal. Mi fydd angen torri'r lawnt yn rheolaidd rŵan.

**Tasgau**

1. Gwyliwch rhag nosweithiau oer, barugog. Mi fydd angen amddiffyn planhigion nad ydyn nhw wedi arfer â bod allan.
2. Mae angen priddo'r tatws wrth iddyn nhw dyfu. Os oes rhai dros ben, mae'n hen bryd eu plannu.
3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis.
4. Ystyriwch ddulliau o gasglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr. Mae dŵr glaw yn fwy bendithiol i blanhigion ac mae'n rhad!
5. Dylai'r hof fod yn brysur iawn y mis hwn. Mae'n talu ar ei ganfed i'w ddefnyddio'n aml.
6. Agorwch ddrws a ffenestri'r tŷ gwydr ar ddiwrnod cynnes.
7. Torrwch y lawnt bob wythnos.
8. Cyn i chi dorri gwrychoedd, archwiliwch nhw yn ofalus rhag ofn bod adar yn nythu ynddyn nhw.
9. Gallwch godi'r cennin Pedr a bylbiau eraill y gwanwyn - a rhannu clystyrau mawr ohonyn nhw.

Mae'r tymor plannu yn ei anterth. Gallwch barhau i blannu bron bob llysieuyn.

**Tatws**: Rydan ni wedi plannu'r tatws cynnar 'Rocket' a 'Swift' ac wedi dewis 'Estima', 'Cara' a 'Desiree' fel tatws diweddar. Plannwyd y 'Rocket' mewn mawn yn y tŷ gwydr ar Chwefror 21 a'u symud nhw wedyn i 14 o fwcedi mawr efo dwy daten ym mhob un. Byddan nhw'n barod i'w bwyta erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn.

**Moron**: Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydan ni wedi arbrofi efo bob math o foron. Erbyn hyn tueddwn i gadw at 'Nantes'. Dydy o ddim yn foryn rhy fawr, does dim canol rhy fawr iddo, mae'r blas yn wych ac mae'n cadw'n dda.

**Nionod**: 'Stuttgarter' a 'Kelsae' yw'r dewis. Fe gadwodd rhain tan fis Ebrill eleni. Mae'r blas yn dda a dydyn nhw ddim yn tyfu'n rhy fawr.

**Ffa**: 'Aquadulce' blannwyd eleni.

**Pys**: Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor! Yr hen ffefrynnau sydd acw, sef 'Kelvedon Wonder' ac 'Onward'.

**Ffa Ffrengig**: Er mwyn gwneud y gorau o'r lle, rydan ni'n tyfu 'Cobra' sy'n dringo'n uchel.

**Cennin**: 'Musselburgh' yw'r dewis. Dydy hi ddim yn tyfu'n rhy fawr ond mae hi'n flasus. Mae hefyd yn cadw'n dda rhag unrhyw bla.


**Betys**: Mae 'Boltardy' yn ddiguro. Nid yw'n rhedeg i had yn hawdd. Rydan ni hefyd wedi plannu betys hir eleni - 'Cylindra'.

**Ffa Dringo**: 'Enorma' ddewiswyd eleni ond bu bron i ni fynd am 'Prizewinner'. Ffa hirion, blasus heb lawer o 'linyn'.

**Bresych**: Dwy hen ffefryn, 'Primo' a 'Greyhound' sydd acw; maen nhw'n ffefrynnau ers tro.

**Letys**: 'All the Year Round'.

**Tomatos**: Cefais gasgliad amrywiol gan gyfaill y llynedd ac fe gafwyd cnwd ardderchog. Eleni mae o wedi rhoi 'Money Maker', 'Shirley', 'Ailsa Craig', 'Alicante' 'Gardener's Delight' [un fach goch], a 'Sungold' [un fach oren - mae'n felys iawn] i mi. Roedd ganddo fymryn dros ben ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gair i gall!




**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

**Byddwn yn ailgydio yn y drefn ar ôl i'r feirws fynd heibio.**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen

11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**


# Nyth y Gân

**Côr y Cewri**

Ar oror, Côr y Cewri – yn dalog,
Yno'n deilwng gwmni;
Pob carreg yn mynegi
Nawdd a braint yn nydd eu bri.



**Tybir i'r adeiladwaith gael ei ddefnyddio fel safle crefyddol ac fel arsyllfa seryddol.**

**Yr Adar Mân**

Yn eu bri'n y boreau – yn gynnar
Dan ganu'n y brigau;
Mewn mwyn hin, mynnu mwynhau,
A'u nwyd mewn tirion nodau.

**Braichmelyn**

Rhowch y mawl i Fraichmelyn, – swyn ei haf
Sy'n nefoedd bob mymryn;
Daw hoen o'r munudau hyn
O oedi'n ei hedd wedyn.

Mwyn yw naws teg y mynydd, – ei feini
A'i fannau ysblennydd,
A dwys wedi synau'r dydd
Dawelwch harddwch hwyrdydd.

Tangnefedd yr annedd i'm rhaid, – fy nef
Yn nawdd bro fendigaid;
Hynod ei balm, a di-baid,
Hynod ei balm i'm henaid.

**Nyth**

Gwaith crefftus, taclus yw'r tŷ – yn Ebrill
Yn ebrwydd 'rôl paru,
A nef eu hymgartrefu'n
Dangnefeddus, gampus, gu.

**Bwncath**

Unben uwchlaw y llennyrch, – yn esgyn
Ar asgell i'r llewyrch;
Bwriad cudd a brad y cyrch
Yw rhagor o brae hygyrch.

**Y Wennol**

Daeth gwanwyn a daeth gwennol – i'r tyddyn
A'r to heddiw'n reddfol
Yma i ddenu'n hamddenol
Hoen a nwyf yr haul yn ôl.

**Goronwy Wyn Owen**

# Ysgol Llanllechid






**Covid 19**
Trodd y byd a'i ben i lawr, a daeth y gair COVID 19 yn air cyfarwydd i ni gyd, ac mae goblygiadau'r gair hwn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar bopeth o'n cwmpas erbyn hyn. Gweddnewidwyd ein hysgolion yn 'Ganolfannau Gwarchod' a bu Ysgol Llanllechid ar newyddion S4C yn trafod y newid syfrdanol hwn. Mae'n glod i'r holl staff ein bod wedi llwyddo i aros ar agor dros gyfnod gwyliau'r Pasg i ddarparu gwasanaeth i blant gweithwyr y rheng flaen, ac mae'n diolch yn enfawr i staff Ysgol Llanllechid am eu hynawsedd a'u help yn ystod y cyfnod cythryblus hwn.

**Diwydrwydd yn y Cartrefi**
Mae'n fraint gweld y plant yn ymwneud â thoreth o weithgareddau yn eu cartrefi yn ystod y cyfnod cythryblus hwn, a diolch am eu danfon i gyfrif trydar Ysgol Llanllechid sef: @ysgllanllechid. Dilynwch ni!










# I Gofio'n Annwyl am Ms Lliwen

Ychydig iawn a feddyliem yr adeg hon llynedd, y buasem yn gorfod ffarwelio â Ms Lliwen Hughes. Daeth y diwedd yn ddisymwth, a daeth fel sioc i ni gyd. Yn wir, mae'n parhau i fod yn anodd dygymod â'r ffaith ein bod wedi colli Ms Lliwen, a gyffyrddodd gyda`n calonnau ni i gyd. Gwraig ifanc, yn fam i ddau o hogiau, oedd wedi wynebu rhai o dreialon bywyd, gyda gwên barhaus ar ei hwyneb a chyda chariad yn ei chalon, oedd Ms Lliwen. Roedd yn meddu ar bersonoliaeth hawddgar a hapus ac yn un o'r bobl yna oedd yn codi eich calon, waeth beth fo'r amgylchiadau. Roedd ei hiwmor chwim yn amhrisiadwy, ac yn aml, byddem yn chwerthin yn ei chwmni, nes oedd dagrau yn rowlio i lawr ein gruddiau; un sydyn ei meddwl a ffraeth ei hymatebion bob amser. Un felly oedd hi; un dda hefo pobl a phlant fel ei gilydd.

Ms Lliwen oedd un o'r wynebau oedd yn croesawu`r plant i'r Clwb Brecwast, ac roedd ganddi'r gallu i wneud hynny yn ei ffordd ddihafal ei hun. Roedd y plant yn meddwl y byd ohoni, a chafodd dwsinau o blant eu cyfoethogi o fod yn ei chwmni. Wedi cyfnod fel gweithwraig yn y Clwb Brecwast, daeth i Ysgol Llanllechid fel cymhorthydd, a dywedodd sawl tro ei bod wrth ei bodd gyda bwrlwm yr ysgol, ac roedd mor werthfawrogol o'i swydd.

Un a elwodd yn fawr oedd Elin, a than yn gymharol ddiweddar, doedd gan neb syniad fod Elin yn cael jeli baby bach slei ar ôl cwbwlhau rhyw dasg benodol! Roedd hynny'n ychwanegu at yr hwyl, ac Elin fach wrth ei bodd, yn hapus braf, yn datblygu ac yn dysgu yng nghwmni Ms Lliwen.

Bu'n fraint cael adnabod a chydweithio hefo Ms Lliwen. Roedd hi'n bersonoliaeth driw ac yn halen y ddaear. Fe fydd hi'n chwith iawn i ni yma hebddi yn Ysgol Llanllechid, a'r chwithdod mwyaf wrth gwrs, i'w theulu a'i ffrindiau lu. Anodd credu fod personoliaeth mor fywiog a byrlymus wedi ein gadael, sy'n gwneud i ni gyd feddwl am freuder bywyd.

Ond, mae gennym ein hatgofion, a'n storiau, ac all neb fynd â rheiny oddi arnom. Cwsg yn dawel Ms Lliwen – bu'n fraint ac yn anrhydedd gallu cyd-gerdded rhan o'r daith hefo gwraig oedd yn llwyddo i edrych ar ochr orau bywyd, pob amser.

Cwsg a gwyn dy fyd.




## Lliwen Llan

Cymeriad hwyliog, llawen
Lliwen Llan

Yn llonni pob ystafell
Lliwen Llan,

Atgofion i`w trysori
A hiraeth am ei chwmni
Anghofiwn fyth mohoni,
Lliwen Llan




## Cwis
### Atebion

- A : Arafa Don
- B : Bydded Goleuni
- C : Cochwillan
- CH : Chwarel Goch
- D : Dafydd
- E : Eisteddfod Dyffryn Ogwen
- F : Fred Bulkely
- FF : Ffrydlas
- G : Gorffwysfan
- H : Hendyrnpeg
- I : Idris Foster
- J : John Huw Evans
- L : Lisa Jên
- LL : Llechid
- M : Mabinogion
- N: Neville Hughes
- O : Owain Arwel Davies
- P : Pantdreiniog
- R : Rallt
- RH : Rhyd y Groes
- S : Steffan
- T : Thomas Telford
- U : Un Nos Ola Leuad
- W : William Griffith

# Yr Urdd yn agor y drysau i Eisteddfod T!




"Caewch y drysau yn y cefn, y gegin a'r lolfa, diffoddwch y peiriant torri gwair a sychu gwallt a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa', mae **Eisteddfod T** ar fin dechrau..."

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod am gynnal Eisteddfod arbennig, wahanol eleni, sef **Eisteddfod T.** Yn dilyn y siom o orfod gohirio Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 tan 2021, bydd Eisteddfod T yn ddathliad bywiog a byrlymus o holl ddoniau plant ac ieuenctid Cymru, ar lwyfan ychydig yn wahanol i'r un arferol.

Bydd y cystadleuwyr yn cystadlu yn ddigidol, trwy uwch-lwytho fideos, clipiau a lluniau o berfformiadau a chynnyrch, a bydd y rowndiau terfynol yn cael eu darlledu mewn rhaglenni arbennig ar S4C, ar wefan S4C ac ar BBC Radio Cymru yn ystod yr wythnos yn cychwyn MAI 25,sef yr wythnos yr oedd yr Eisteddfod ei hun i fod i gael ei chynnal.

Mae'r rhestr testunau a chyfarwyddiadau sut i gystadlu i'w gweld ar wefan www.S4C.cymru/urdd, sydd nawr ar agor i gystadleuwyr. Yma hefyd mae cyfeiliant, gosodiadau, tips ffilmio a recordio a phopeth sydd ei angen i gystadlu. Yn ogystal â chystadlaethau traddodiadol fel cerdd-dant a chorau, mae cystadlaethau eraill mwy anffurfiol – dynwared, lip-sync a chystadlaethau i'r teulu i gyd... a hyd yn oed anifeiliaid anwes! Dyddiad cau'r cystadlu yw Mai 11 am hanner dydd.

"Mi fydd Eisteddfod T yn arbennig," meddai Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Sian Eirian. "Roedd yr Urdd yn benderfynol o gael Eisteddfod mewn rhyw ffurf a darparu cyfle i blant a phobl ifanc lle mae'r Eisteddfod yn gymaint o ran o'u calendr. Yn yr un modd, roedd ein partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - hefyd yn awyddus i gynnal darpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd sydd wedi arfer â wythnos o arlwy eisteddfodol ddiwedd Mai.

Gyda thestunau Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 wedi eu rhewi tan flwyddyn nesaf, mae holl destunau Eisteddfod T yn newydd, a'r mwyafrif yn hunan-ddewisiad. Bydd Eisteddfod T hefyd yn cynnig prif wobrau llenyddol, cerdd, drama, celf ac i ddysgwyr yn ystod yr wythnos.

# Cyrsiau ar-Lein am ddim i Breswylwyr Gogledd Cymru

- **Deall eich beichiogrwydd, yr esgor, yr enedigaeth a'ch babi**
- **Deall eich babi**
- **Deall eich plentyn**
- **Deall ymennydd eich glasoed**

Mae Tîm Iechyd Cyhoeddus i'r Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr wedi buddsoddi mewn trwydded amlddefnyddiwr ar gyfer 4 cwrs ar-lein o ansawdd, sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan *Solihull Approach* (sefydliad cenedlaethol y GIG).

Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer HOLL ddarpar rieni, rhieni, neiniau a theidiau neu ofalwyr unrhyw blant o'r cyfnod cyn-geni hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r cwrs yn berthnasol i rieni pob plentyn, gan gynnwys y rhai ag anghenion arbennig, awtistiaeth, ADHD ac ati. Yn y dogfennau atodedig mae cylchlythyr yn hyrwyddo'r cwrs, cwestiynau cyffredin a geirda gan rieni sydd wedi cwblhau'r cwrs.

Byddem yn eich annog i fanteisio ar y cyfle hwn sydd â therfyn amser. Mae'r cyrsiau **AM DDIM** i bob preswylydd Gogledd Cymru gyda'r codau mynediad isod.

Mae'r drwydded yn ddilys tan 30 Tachwedd 2022 felly manteisiwch ar yr adnodd ardderchog tra gallwch. Unwaith y byddwch wedi cael mynediad at y cyrsiau trwy ddefnyddio'r cod, bydd gennych fynediad nad yw'n dod i ben.

Ewch i www.inourplace.co.uk a mewnbynnwch y cod mynediad **NWSOL**:

- **Deall eich beichiogrwydd, yr esgor, yr enedigaeth a'ch babi**
- **Deall eich babi**
- **Deall eich plentyn**
- **Deall ymennydd eich glasoed**

Gofynnir i chi greu cyfrif er mwyn i chi allu parhau â'r cwrs o'r pwynt y gwnaethoch ei adael. Yn ogystal, gofynnir i chi wirio bod gennych hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r cod mynediad drwy nodi eich cod post.

Bydd yr wybodaeth personol a ddarperir gennych yn aros yn breifat. Bydd eich ymatebion i'r cwestiynau monitro yn ddienw. Ni fyddwch yn derbyn unrhyw e-byst marchnata. Byddwch yn derbyn e-byst o longyfarch pan fyddwch yn cwblhau modiwl.

Efallai y bydd *Solihull Approach* yn eich e-bostio o bryd i'w gilydd i roi gwybod i chi am ddiweddariadau i'r cwrs. Rydym yn croesawu eich adborth.

Am ragor o wybodaeth am y cwrs, ewch i www.inourplace.co.uk

Am ymholiadau technegol, e-bostiwch solihull.approach@heartofengland.nhs.uk neu ffoniwch 0121 296 4448 o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am–5pm

**Am unrhyw cwestiynau lleol cystyllwch yn Cymraeg neu Saesneg i** nwsol@wales.nhs.uk

Cofion gorau, *Tîm Iechyd Cyhoeddus BIPBC*

# Pentir

**Cynrig a Carys Hughes,**
Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB
☎ 01248 601318
E-bost: carys16@hotmail.com

**Firws Corona: Eich Atgoffa**
Fel nodwyd yn y rhifyn olaf o'r Llais, mae help ar gael yn lleol i'r rhai sy'n ynysu neu angen cymorth cyffredinol. Mae nifer o unigolion ar gael i ateb y galw a gellir cysylltu gyda hwy drwy anfon neges e-bost i *post@pentir.* Hefyd, mae gwefan ar gael ynglŷn â ble i brynu nwyddau ayyb: *pentir.org.uk.*

**Glain Dafydd a'i Thelyn**
Mae gyrfa gerddorol Glain yn mynd o nerth i nerth ond gohiriwyd un o'i chyngherddau diweddar yn yr Eidal oherwydd pryder Cofid-19. Eto, bu i Glain berfformio o'i chartref ym Mhentir a hynny'n fyw ar dudalen Facebooh Salvi Harps. I'r rhai ohonom a gollodd y datganiad ar y noson, mae modd gweld a chlywed perfformiad Glain, sydd i'w gael o hyd ar y dudalen Facebook.

**Gwerthfawrogi bywyd natur ardal Pentir**
Mae'r cyfyngiadau ar grwydro yn golygu bod gennym fwy o amser ar ein dwylo. I rai ohonom mae hyn wedi ein harwain i sylwi'n fanylach ar yr hyn sydd o'n cwmpas. Mae'n dal yn bosib cael ein rhyfeddu a'n diddori gan y byd natur sydd yn union tu allan i'n drws.

Mae nifer o ardalwyr wedi cychwyn rhannu sylwadau am fyd natur y gwanwyn yma. Mater o ddiddordeb yw'r amrywiaeth o adar sydd wedi eu gweld yn ardal Pentir yn ystod diwedd mis Ebrill.

Gwelwyd y wennol gyntaf ar 5ed o'r mis a chyrhaeddodd y Gog ychydig ddyddiau ynghynt hefyd. Eto, mae'n bryder bod llai o wenoliaid o gwmpas ac mae gostyngiad o tua 40% wedi bod yn y boblogaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae llethrau Moelyci yn safle gwych i adarydda a gwelwyd y canlynol yn ddiweddar:

Mae'r Gylfinir a'r Bwncath wedi eu gweld yn nythu ynghyd a'r Hwyaden Gopog ar lyn cyfagos. Gwelwyd Y Dylluan Wen, Telor yr Helyg, Telor Penddu, Troellwr Bach, Dryw Eurben, Llinos Bengoch, Telor yr Ardd, Clochdar y Cerrig, Cornhedydd y Waun, Siglen Lwyd, Coch y Berllan a Tinwen y Garn.

Diolch i Steve Miles am rannu ffrwyth ei adarydda.

# Nyth y Gân Ifanc




## Antur y Natur

Yr afonydd yn llifo
A'r adar yn crio,
cynffon y gath,
a'r bwncath yn mewian
yn yr awyr las,
ond diwedd y dydd, dydi natur ddim yn gas.

Y mynyddoedd yn gadarn,
y graig fel haearn,
y mwsog fel gwely,
does yna nunlle fel Cymru.

Gwelwch chi y blodau hardd,
efallai y gwelwch chi nhw yn eich gardd,
y llynnoedd yn llonydd,
ond ddim fel yr afonydd.

Dyna ni eich antur chi,
gwelwch chi nhw coeliwch fi,
edrychwch o'ch amgylch i edrych ar y natur,
dim ots lle'r ydach chi, cewch chi antur.
O dw i'n caru byw yn Methesda,
ewch am dro i Gyrn Wigau.
A dyna chi antur y natur!



## Rhywbeth am natur

Mae natur yn rhywbeth hyfryd a hardd,
Yn y parc, y goedwig ac yn yr ardd.
Mae natur y rhywbeth neith godi dy galon,
Y creigiau, y mwsog a bwrlwm yr afon.

Y llinos hardd a'i adennydd coch,
Y barcud, jî-binc a robin goch.
Y fran a'r llinos werdd,
O mor brydferth yw eu cerdd.

Llinad, lili-ddŵr a chynffon y gath,
Dw i erioed 'di gweld dim byd o'r fath!
O mor hardd yw'r planhigion hyn,
Fe welwch chi nhw yn yr afon a'r llyn.

Y gwynt a'r glaw yn rhuo fel llew,
Yr eira gwyn yn drwch ac yn dew.
Yr haul mawr poeth yn yr awyr las,
Y creaduriad i gyd,- y neidr a'r gwas.

Mae natur yn rhywbeth neith aros yn eich calon,
Y coed, y creigiau, y gwair a'r afon.
Dach chi'n gwybod i ddod am daith yn y natur,
Coeliwch chi fi, gewch chi uffar o antur!

**DIFYRION**

## Holl bobl y byd mewn un lle

Fe ellid rhoi holl bobl y byd oddi mewn i Los Angeles. Mae poblogaeth yr holl fyd tua 7.5 biliwn. Mae hwnnw'n swm anferth ond mae rhywun wedi gweithio allan y gellid rhoi pob copa welltog oddi mewn i LA pe gosodid hwy ysgwydd wrth ysgwydd. Mae LA yn 500 milltir sgwâr yn ôl y cylchgrawn National Geographic.



# "Cyfiawnder Nid Elusen"

## Y Frwydr tros ennill hawliau lles i'r Deillion

Gan mlynedd yn ôl, trefnwyd gorymdaith i Lundain gan Gynghrair Genedlaethol Y Deillion (National League of the Blind) yn Ebrill 1920, i bwyso ar y Prif Weinidog, Lloyd George, a'r senedd yn San Steffan i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n gwella hawliau lles a buddiannau'r deillion fel dinasyddion llawn a chyfartal o fewn y gymdeithas. 'Roedd Cynghrair Cenedlaethol Y Deillion wedi datblygu fel undeb llafur ar gyfer eirioli tros wella hawliau'r deillion i addysg, hyfforddiant a gwaith o dan nawdd y wladwriaeth ac awdurdodau lleol. Dyma ddigwyddiad arwyddocaol yn hanes datblygiad y mudiad llafur ac ymgyrchoedd i sicrhau hawliau cyfartal i bobl gydag anableddau yng Ngwledydd Prydain a'r byd. Fe arweiniodd hyn at fabwysiadu Deddf Personnau dall ym mis Medi 1920, mesur a oedd yn ragflaenydd cynnar i'r hyn a ymgorfforwyd yn y Ddeddf Cyfartaleddau yn 2010.

Yn 1889, 'roedd Comisiwn Brenhinol wedi argymell cyflwyno addysg gorfodol i bobl ifanc dall hyd at yr oedran o 16 oed. Daeth hyn i rym o dan ddeddfwriaeth a fabwysiadwyd yn 1893. Yn y cyfnod hwnnw, 'roedd pobl gyda phroblemau golwg yn gwbl ddibynnol ar elusennau ar gyfer derbyn gwaith mewn crefftau traddodiadol megis gwneud basgedi, matiau, brysiau sgubo a thiwnio pianos, a hynny yn aml am dâl pitw ac annigonol i gynnal bywydau yr unigolion a'u teuluoedd. Y tueddiad ar y pryd oedd gweld pobl ddall fel 'tlodion haeddiannol' a oedd yn destun tosturi ac agwedd dadol gan fudiadau elusennol.

Sefydlwyd Cynghrair Cenedlaethol Y Deillion yn 1894 i frwydro tros wella hawliau cyfartal a gwella cyfiawnder cymdeithasol a lles economaidd pobl gyda phroblemau golwg. Dyma'r mudiad cyntaf a sefydlwyd gan y deillion i gynrychioli ac ymgyrchu tros hawliau'r aelodau a oedd hefyd yn ddall. Daeth y Gynghrair Genedlaethol yn fudiad llafur o dan Y Gyngres Undebau Llafur yn 1902 ac i berthyn i'r Blaid Lafur yn 1909. Cred y Gynghrair bod angen lleihau dibyniaeth y deillion ar elusen a dylai'r wladwriaeth ac awdurdodau lleol dderbyn cyfrifoldeb tros sicrhau hawliau pobl gyda phroblemau golwg ac anableddau eraill i dderbyn addysg, hyfforddiant a chyfleoedd gwaith ynghyd â phensiwn teg ar gyfer y rhai nad oedd yn gallu gweithio. Fe arweiniodd hyn at streic 6 mis gan weithwyr dall ym Mruste yn 1912.

Yn ystod y Rhyfel Byd 1af, fe sefydlwyd nifer o bwyllgorau i archwilio argymhellion ar gyfer gwella hawliau lles pobl gyda phroblemau golwg ac fe arweiniodd hyn at gyflwyno mesurau ar ddiwedd y rhyfel pan oedd nifer y deillion yn cynyddu o ganlyniad i'r milwyr a ddychwelodd adref ar ôl colli eu golwg ar faes y gad. Gan fod Llywodraeth Lloyd George yn gyndyn i dderbyn argymhellion y Gynghrair Genedlaethol a phwyllgorau seneddol, fe aeth undeb llafur y deillion ati i drefnu gorymdaith 20 diwrnod ar droed gan weithwyr dall i fynnu cyfarfod gyda Lloyd George yn Llundain ym mis Ebrill 1920. Trefnwyd un carfan o weithywr o'r Alban a gogledd-ddwyrain Lloegr i orymdeithio o Leeds; trefnwyd ail garfan o weithwyr o Ogledd Iwerddon a Manceinion a thrydydd carfan o weithywr o Gasnewydd a'r gorllewin. Unodd y dair carfan yng Nghaerlŷr ar gyfer gorymdeithio ymlaen i Watford i ymuno gyda chriw arall o dde Lloegr cyn mynd ymlaen i Sgwâr Trafalgar o dan y faner "**Cyfiawnder Nid Elusen**".

Bu rhaid i'r gorymdeithwyr a'u harweinyddion ddisgwyl pump diwrnod cyn cael cyfarfod gyda Lloyd George. Serch hynny, fe arweiniodd hyn at fabwysiadu'r ddeddf Personnau Dall ym mis Medi 1920. Cydnabyddwyd hawliau'r deillion fel dinasyddion llawn yn y Ddeddf hon a chyfrifoldeb y wladwriaeth trwy'r awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl gydag amhariad ar eu golwg. Gostyngwyd yr oedran pensiwn o 70 i 50 oed ar gyfer y deillion. Dyma'r ddeddf gyntaf i warchod a hyrwyddo hawliau teg a chyfartal i bobl gydag anableddau yng Ngwledydd Prydain.

**Gareth Llwyd**

**Plaid Cymru Yma i chi!**

**Siân Gwenllian AC a Hywel Williams AS yn cefnogi etholwyr Arfon yn ystod argyfwng Covid-19.**

Er bod yr holl staff yn gweithio o adra ar hyn o bryd, rydym yn parhau i ateb eich ymholiadau

01286 672076

sian.gwenllian@cynulliad.cymru

hywel.williams.mp@parliament.uk









# COVID-19

Cyngor ein gwlad yw ynysu,
I warchod teuluoedd di-ri.
A phallu'r holl gymdeithasu,
Mae heddiw'n ein dwylo ni.

Nid jôc yw hyn, ond 'pandemig'.
Dyfodol ein pobl, ein byd.
Gweithiwn fel un tîm brwdfrydig,
Nes fod Covid-19 yn fud.

Gall brofi yn amser go unig,
Wrth edrych ar wyneb, drwy lun.
Ond cofia di hyn, mae'n bwysig-
Nid wyt ti ar 'ben dy hun.

Digwyddiad du yn ein hanes,
Er hyn, gyda gobaith a ffydd,
Rhaid ymladd y frwydr anghynnes,
'Ddown drwyddi yn gryfach, rhyw ddydd.

*Hanna Gwyn Williams*

